PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Cwricwlwm i bob dysgwr

## Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Cwricwlwm i bob dysgwr

## Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

**Cynulleidfa**

Pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yng Nghymru; sefydliadau hyfforddi ac addysgu athrawon; awdurdodau lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli athrawon; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru ac eraill sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Bydd y canllawiau hyn yn helpu athrawon dysgwyr ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol (gweler Atodiad 1) mewn lleoliadau/ysgolion prif ffrwd ac arbennig i addysgu ac asesu yn erbyn cwricwlwm 2008. Er bod y canllawiau yn canolbwyntio ar Gyfnodau Allweddol 2 a 3 yn bennaf, fe fydd yn ddefnyddiol i staff sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen a chyda dysgwyr 14–19 oed mewn amrywiaeth o leoliadau.

**Camau i'w cymryd**

Gall ymarferwyr unigol, athrawon a thimau o staff mewn ysgolion, y rheini â chyfrifoldebau cwricwlaidd a/neu gyfrifoldebau asesu, cydlynwyr AAA ac uwch reolwyr ac awdurdodau lleol (ALlau) ddefnyddio'r canllawiau hyn ar gyfer grwpiau o ysgolion i adolygu eu harferion cwricwlwm ac asesu.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0800 083 6003
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: AC/GM/0862
ISBN: 978 0 7504 4708 9

A-EAC-02-01-qA756973/1/ND
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2010

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

**Adran 1: Cynllunio i gynnwys pob dysgwr** 5

Cynllunio cwricwlwm perthnasol 6

O 'wahaniaethu' i 'drawsnewid y gallu i ddysgu' 13

Diwallu anghenion dysgwyr mwy galluog a thalentog 16

Defnyddio'r fframwaith sgiliau 18

Y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol 18

Y Cyfnod Sylfaen 19

Cwricwlwm ac asesu 8–14 20

Llwybrau Dysgu 14–19 20

Pontio 23

Cwestiynau cyffredin am y cwricwlwm – atebion 24

Monitro a gwerthuso'r cwricwlwm 30

**Adran 2: Asesu pob dysgwr** 33

Y fframwaith asesu diwygiedig 34

Defnyddio deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol 35

Y berthynas rhwng asesiadau ffurfiannol ac asesiadau crynodol 37

Olrhain cynnydd dysgwyr 40

Disgwyliadau o ran cynnydd dysgwyr 41

Proffil Datblygiad Plentyn yn y Cyfnod Sylfaen 44

Asesiad sgiliau Blwyddyn 5 44

Ffyrdd ehangach o fesur cynnydd 45

Defnyddio *Ar Drywydd Dysgu* ar gyfer asesiadau crynodol ar ddiwedd cyfnodau allweddol i ddysgwyr ag anghenion cymhleth 48

Cefnogi asesiad athrawon 51

Asesu ar gyfer dysgu 53

Cynnwys pob dysgwr – sylwadau i gloi 55

**Adran 3: Atodiadau** **57**

Atodiad 1: Diffinio anghenion dysgu ychwanegol 58

Atodiad 2: Datblygu cwricwlwm cynhwysol – cwestiynau i gefnogi ysgolion i fodloni anghenion dysgu ychwanegol 62

Atodiad 3: Strategaethau addysgu cynhwysol 64

Atodiad 4: Modelau cwricwlaidd i ddysgwyr ag anghenion cymhleth 66

Atodiad 5: Adolygu prosesau asesu 70

Atodiad 6: Defnyddio tystiolaeth asesu 74

Atodiad 7: Cyfeiriadau, darllen pellach a gwefannau defnyddiol 76

**Cydnabyddiaethau** 79

# Cyflwyniad

Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* (2005). Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'n cynnwys saith nod craidd sy'n anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
- yn mwynhau'r iechyd gorau posib, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsploetiaeth
- yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- yn cael pobl i wrando arnyn nhw, yn cael eu trin gyda pharch, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol
- yn byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- ddim dan anfantais oherwydd tlodi.

Cymhwysiant yw cyfrifoldeb pawb. Mae'n ymwneud, nid yn unig â lle mae dysgwyr yn cael eu haddysg, ond hefyd â darpariaeth addysg ystyrlon fydd yn meithrin annibyniaeth a chynhwysiant mewn cymdeithas gyfan.

Er mwyn ategu'r weledigaeth hon a sicrhau bod pob dysgwr yn cael addysg sy'n datblygu ei botensial i'r eithaf, mae'r datganiad 'Cynnwys pob dysgwr' yng Ngorchmynion pwnc y cwricwlwm (2008) a'r fframweithiau yn crynhoi'r gofynion ar ysgolion o dan y ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Deddfau Cysylltiadau Hiliol 1996, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Deddf Cydraddoldebau 2006. Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Statudol yn *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* (Cylchlythyr 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Ceir diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol yn Atodiad 1 (tudalen 58).

# *Adran* 1

## Cynllunio i gynnwys pob dysgwr

# Cynllunio cwricwlwm perthnasol

Dylai lleoliadau/ysgolion ddefnyddio'r datganiad 'Cynnwys pob dysgwr' i graffu ar eu trefniadau presennol a nodi arfer da, gan dynnu sylw ar yr un pryd at unrhyw ffyrdd o weithio a allai greu rhwystrau amgylcheddol neu gymdeithasol i gyfranogiad ac ymgysylltiad. Rhaid i lleoliadau/ysgolion weithio i ddarparu cwricwlwm cynhwysol sy'n cynnig cyfleoedd i bob dysgwr gyflawni a chyfrannu yn y Gymru aml-ethnig sydd ohoni.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i feithrin y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol ar lefel briodol, gall ysgolion ddewis cynnwys o'r Cyfnod Sylfaen neu unrhyw gyfnod allweddol o fewn fframwaith y cwricwlwm a'i ddefnyddio mewn ffordd hyblyg, ynghyd â'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008), er mwyn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon, perthnasol ac ysgogol i'w dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr ac atgyfnerthu eu datblygiad cyffredinol.

Yn ogystal â Gorchmynion pwnc y cwricwlwm cenedlaethol, gellir rhoi mwy o bwyslais i'r fframweithiau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) (2008) ac ar gyfer datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif, a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm er mwyn diwallu anghenion â blaenoriaeth dysgwyr.


Mae Ffigwr 1 yn dangos, er mwyn i ddysgu effeithiol ddigwydd, bod yn rhaid diwallu'r anghenion corfforol a chymdeithasol a'r anghenion o ran diogelwch a hunan-barch a amlinellir yn haen isaf y diagram yn gyntaf. Dengys yr ail haen gynnwys a fydd yn darparu sail i gwricwlwm perthnasol i bob dysgwr – datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, personol a chymdeithasol. Gall hyn hefyd gynnwys sgiliau corfforol, gogwydd a symudedd, sgiliau bywyd a sgiliau hamdden. Ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth, efallai na fydd sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth pwnc yn flaenoriaeth uchel ond gellir dewis cynnwys o blith Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio pwnc sy'n berthnasol i anghenion y dysgwr ac a fydd hefyd yn darparu cyd-destunau diddorol ar gyfer gwaith parhaus ar flaenoriaethau unigol. Ar gyfer rhai dysgwyr, mae'n bosibl bydd ffisiotherapi, therapi lleferydd, therapi galwedigaethol a meysydd ychwanegol eraill yn rhan annatod o'r cwricwlwm.

Yn gyffredinol, dylai'r cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr anelu at ddarparu dealltwriaeth wirioneddol a sgiliau bywyd perthnasol yn hytrach na 'chwmpasu' cynnwys y pwnc.

Ni ddarperir cwricwlwm effeithiol drwy gyfres o brofiadau dysgu unigol. Rhaid ei gynllunio gan ystyried anghenion y dysgwr er mwyn sicrhau y caiff blaenoriaethau unigol a chysyniadau allweddol eu hailystyried mewn gwahanol gyd-destunau er mwyn sicrhau y caiff sgiliau a dealltwriaeth berthnasol eu meithrin, eu trosglwyddo a'u hymgorffori.

Rhaid i ysgolion ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol a dylen nhw ddarparu esboniad clir am y penderfyniadau a wnaed o ran pwyslais cwricwlaidd o ystyried anghenion y dysgwr a gofynion y ddeddfwriaeth cydraddoldebau. Dylid dogfennu'r rhesymeg sy'n deillio o hynny mewn datganiadau polisi sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm cyfan neu bynciau. Gellir defnyddio'r cwestiynau yn Atodiad 2 i ategu'r broses hon.

Ffig. 1: Cynllunio cwricwlwm cynhwysol



- **Cynlluniau hirdymor:** dylai cynlluniau hirdymor roi trosolwg o'r cynnwys a ddewiswyd o'r Meysydd Dysgu neu raglenni astudio'r pynciau ynghyd â sgiliau o'r fframweithiau ar gyfer datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a TGCh.

Dylai'r cynlluniau ddefnyddio'r rhaglenni astudio sy'n briodol i'r oedran fel man cychwyn, gan ddefnyddio cynnwys a/neu gyd-destunau perthnasol ar gyfer dysgu os na fydd peth o'r cynnwys yn hygyrch i bob dysgwr. Mewn achosion o'r fath, dylai athrawon edrych ar y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio cynharach fel sail ar gyfer amlinellu'r cysyniadau allweddol, y cwestiynau hanfodol a'r sgiliau bywyd bydd eu hangen ar ddysgwyr i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Gall ysgolion nodi'r cysyniadau hyn o fewn Meysydd Dysgu/pynciau i'w haddysgu mewn unedau bloc neu unedau parhaus a dangos cysylltiadau rhwng meysydd pwnc a sgiliau er mwyn sicrhau cydlyniaeth.

Dylai cynlluniau hefyd ddangos dilyniant a pharhad bras ar draws cyfnodau allweddol er mwyn egluro hawl dysgwyr i gael ehangder a chydbwysedd yn y cwricwlwm.

**Rhaglen dreigl pedair blynedd – Cyfnod Allweddol 2 (darpariaeth ag adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol)**

Mae'r ymagwedd hon tuag at gynllunio a ddangosir yn Ffigwr 2 yn sicrhau dilyniant, parhad a chwmpas heb ailadrodd i ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2. Defnyddiwyd themâu cyffredin mewn rhai achosion i drefnu pynciau gyda'i gilydd, osgoi rhannu a hybu'r broses o gyffredinoli sgiliau. Mae'r ysgol yn pwysleisio'r broses ddysgu ac yn osgoi cyfeirio at unrhyw gynnwys mewn ffordd arwynebol. Mae'r themâu fel arfer yn rhedeg dros dymor er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr sy'n cael sefyllfaoedd/gweithgareddau newydd yn fygythiol i ymaddasu ac ymgyfarwyddo â phroject newydd gan sicrhau y cân nhw y budd mwyaf posibl o'r project hwnnw. Bydd cynlluniau tymor canolig a byrdymor yn ymdrin â gwahaniaethu er mwyn diwallu'r amrywiaeth eang o anghenion ymhob dosbarth. Bydd gan bob dysgwr amcanion dysgu unigol (ar gyfer cyfathrebu/Saesneg a datblygiad cysyniadol cynnar/mathemateg) ac mewn sawl achos, bydd y pynciau a nodir uchod yn hwyluso'r broses o ymdrin â'r blaenoriaethau hyn. Caiff TGCh a Chymraeg (ail iaith) hefyd eu cynnwys ar draws y cwricwlwm, felly hefyd elfennau niferus o ABCh, yr ystyrir ei fod yn bwnc craidd yn yr ysgol hon.

Ffig. 2: Enghraifft o gynllun hirdymor

| | | | |
|---|---|---|---|
| BL 2 | Trydan (GW)<br>Grymoedd a Mudiant (GW)<br>Gwneud i bethau Weithio – Teganau Adeiladu (DT)<br>← Trafnidiaeth (DA) →<br>Defnyddio Paent - Brwsys (CELF)<br>Defnyddio Paent (CELF)<br>← Dangos Mwynhad Offerynnau Newydd (CERDD) →<br>← Cymryd Troeon Chwarae Gweithredol (DRAMA) →<br>← Twf Dynol (ABCh) →<br>Newidiadau i Fywyd Teuluol (AGr)<br>Nadolig – Traddodiadol Dathliadau (AGr) | Deunyddiau – Grwpio (GW)<br>Deunyddiau – Newid (GW)<br>Defnyddio Synnwyr Cyffredin (DT)<br>Cymariaethau (DA)<br>Defnyddio Paent - Argraffwyr /Rholwyr (CELF)<br>Sylweddau Hydrin (CELF)<br>← Dangos Mwynhad Dangos Hoffter (CERDD) →<br>← Cymryd Troeon Gemau Parti (DRAMA) →<br>← Balans - Ymarfer Corff / Dawns (AGo) →<br>← Diogelwch Personol (ABCh) →<br>Hunan Werth / Hunan Eiriolaeth (AGr)<br>Stori'r Pasg yn y Celfyddydau (AGr) | Planhigion (GW)<br>Anifeiliaid - Gwyllt (GW)<br>Picnic i'r Tedis (DT)<br>Hen a Newydd (HAN)<br>Defnyddio Ffabrig – Appliqué (CELF)<br>Papier Mache (CELF)<br>← Dangos Mwynhad Gwerthfawrogiad Grŵp Bach (CERDD) →<br>← Gwneud Ystumiau - Synau gydag Eraill Gwylio ac Efelychu (DRAMA) →<br>← Chwaraeon - Gemau Pêl / Athletau (AGo) →<br>← Gofalu am eich Hun ac Eraill (ABCh) →<br>← Bwlio (AGr) → |
| BL 3 | Arnofio a Suddo (GW)<br>Goleuni a Thywyllwch (GW)<br>Gwneud i Bethau Weithio - Defnyddio Switsys Syml (DT)<br>Fy Nhŷ (HAN)<br>Defnyddio Paent - Sbwng /Rhwydi Tasgu (CELF)<br>Lliw (CELF)<br>← 5a Cymryd Troeon Cyfansoddi Grŵp Cyfan (CERDD) →<br>← 5a Gwneud Ystumiau - Synau gydag Eraill Rhyngweithio (DRAMA) →<br>← Teithio a Chyfeiriad – Ymarfer Corff / Dawns (AGo) →<br>← Byw'n Iach (ABCh) →<br>Gofalu am Eiddo (AGr)<br>Negeseuon y Nadolig (AGr) | Deunyddiau – Grwpio (GW)<br>Deunyddiau – Newid (GW)<br>Yn y Cawl (DT)<br>← Adeiladau (DA) →<br>Creu Ffurfiau 3D (CELF)<br>Cyfuno Cyfryngau (CELF)<br>← Cymryd Troeon Ystumiau - Ciwiau (CERDD) →<br>← Ymwybyddiaeth o Gydberthnasau Ymlacio (DRAMA) →<br>← Fy Nghymuned a Mi (ABCh) →<br>Gofalu am Anifeiliaid (AGr)<br>Bwydydd y Pasg (AGr) | Pobl (GW)<br>Anifeiliaid – Bwystfilod Bach (GW)<br>Gludo a Deunyddiau (DT)<br>Tywydd (DA)<br>Defnyddio Papur – Torri (CELF)<br>Defnyddio Ffabrig – Brithwaith Gweadog (CELF)<br>← Cymryd Troeon - Recordio TGCh (CERDD) →<br>← Ymwybyddiaeth o Gydberthnasau Ymwybyddiaeth o'r Corff (DRAMA) →<br>← Chwaraeon – Gemau Pen Bwrdd / Athletau (AGo) →<br>← Fy Nheulu a Fi (ABCh) →<br>← Amgylcheddau Anifeiliaid (AGr) → |

- **Cynlluniau tymor canolig:** dylai cynlluniau tymor canolig gael eu cynllunio i ehangu/addasu'r cynnwys a ddewiswyd gan ystyried proffil eang y dysgwyr. Dylen nhw ganolbwyntio ar gyfleoedd asesu (er mwyn canfod beth mae'r dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud drwy amrywiaeth o weithgareddau) a dangos dilyniant drwy sgiliau/cysyniadau (gweler Ffigwr 3). Gall cynlluniau tymor canolig hefyd gynnwys amrywiaeth o weithgareddau dysgu (gan ystyried anghenion a dewisiadau amrywiol y dysgwyr), adnoddau ac ymagweddau addysgu i ennyn diddordeb dysgwyr. Gellir cynnwys sgiliau datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a TGCh gan gynllunio ar gyfer eu hailystyried a'u hatgyfnerthu.

Ffig. 3: Enghraifft o gynllun tymor canolig

**Cynllun tymor canolig ar gyfer gwyddoniaeth**

| DEILLIANNAU DYSGU | GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR | CYFLEOEDD ASESU | ADNODDAU | SGILIAU A PHROSESAU ALLWEDDOL |
|---|---|---|---|---|
| I'r disgyblion allu gwrando a dangos diddordeb mewn amrywiaeth o synau | - gwrando ar amrywiaeth o synau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth a gwneud y synau hynny<br>- ystyried synau uchel a thawel a'u dosbarthu<br>- ystyried synau a gynhyrchir gan wahanol ddefnyddiau ee metel, pren, papur, plastig ac ati a'u dosbarthu<br>- gemau loto synau gyda synau chyfarwydd<br>- gwneud tâp o offerynnau cerddorol. A allwn ddyfalu pa offeryn sy'n canu?<br>- gêm mewn pâr. Un plentyn yn chwarae offeryn / sŵn cudd. Y plentyn arall yn nodi'r sŵn.<br>- mynd ar daith / helfa synau o amgylch yr ysgol / ardal leol.<br>- rhaglenni cyfrifiadurol sy'n defnyddio synau | Gallu'r disgyblion i wneud sŵn ar gais<br>Gallu'r disgyblion i ymateb i sŵn<br>Gallu'r disgyblion i wneud dewisiadau ynghylch sŵn (hoff bethau)<br>Gallu'r disgyblion i adnabod sŵn | Recordydd tâp<br>Gemau loto synau<br>Offerynnau<br>Amrywiol ddefnyddiau i wneud synau<br>CD-ROM | Sgiliau cyfathrebu<br>Sgiliau datrys problemau<br>Sgiliau TGCh |
| I'r disgyblion ddysgu bod offerynnau / gwneuthurwyr synau sy'n gwneud synau yn dirgrynnu / symud | - chwythu balŵn i fyny, ei ddal wrth glust plentyn a siarad drwyddo<br>- plicio pren mesur yn erbyn y ddesg<br>- reis / confetti ar ddrwm / symbal<br>- 'kazoos' crib a phapur i deimlo'r dirgryniad<br>- teimlo a chwarae amrywiaeth o offerynnau llinynnol | Gallu'r disgyblion i ymateb i ddirgryniad<br>Gallu'r disgyblion i sylwi ar symudiad<br>Gallu'r disgyblion i gadw cysylltiad ag offeryn wrth iddo gael ei chwarae | | Sgiliau cyfathrebu |

- **Cynlluniau byrdymor:** caiff cynlluniau byrdymor eu gwahaniaethu er mwyn ystyried anghenion â blaenoriaeth dysgwyr (fel y'u hamlinellir yn eu cynllun addysgu unigol). Ar gyfer rhai o feysydd y cwricwlwm, lle y bwriedir ymgymryd â thasgau mwy penagored, gall fod yn briodol amlinellu dewislen o fwriadau dysgu yn hytrach na rhestr i'w dilyn mewn trefn benodol. Gellir rhoi mwy o fanylion am grwpiau'r dysgwyr, y defnydd o staff a strategaethau addysgu.

Dengys Ffigwr 4 isod sut mae un adnodd arbenigol yn cynllunio ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen drwy bennu 'dewislen' o weithgareddau parhaus sy'n cwmpasu'r dysgu allweddol. Mae'r dysgu allweddol yn seiliedig ar fframwaith y Cyfnod Sylfaen ond maen nhw wedi'u haddasu i ddiwallu anghenion y plant. Dilynwyd ymagwedd debyg gyda'r Meysydd Dysgu eraill, gyda chysylltiadau'n cael eu nodi lle bo'n berthnasol er mwyn osgoi ailadrodd. Mae'n bwysig nodi nad ymdrinnir â'r dysgu allweddol fel rhestr wirio, ond fel canllaw i helpu'r staff i ganolbwyntio ar ganlyniadau posibl ar draws sawl Maes Dysgu. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr/athrawon yn cynllunio 'darpariaeth estynedig' gyda deilliannau dysgu (trawsgwricwlaidd) sy'n canolbwyntio'n benodol ar flaenoriaethau unigol y plant. Caiff dysgu'r plant ei werthuso'n barhaus a chedwir hyblygrwydd er mwyn galluogi'r staff i weithredu yn unol â dewisiadau a diddordebau'r plant ac i sicrhau amser i ymarfer sgiliau.

Ffig. 4: Enghraifft o gynllun Cyfnod Sylfaen

| Darpariaeth Barhaus yn y Cyfnod Sylfaen - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu - Gwneud Marciau | | |
|---|---|---|
| Beth bydd y plant yn ei wneud? | Adnoddau parhaol | Dysgu Allweddol |
| Gwneud marc /ysgrifennu<br>Gwneud patrymau<br>Tynnu llun<br>Cyfathrebu<br>Arbrofi/rhoi cynnig<br>Datrys problemau<br>Dargopïo<br>Darllen<br>Tynnu llinell o amgylch gwrthrychau<br>Creu lluniau a negeseuon i'w hanfon at ei gilydd<br>Defnyddio byrddau/llythrennau magnetig<br>Dileu<br>Copïo llythrennau o'u hamgylch<br>Chwarae rôl | Bwrdd Gwyn<br>Ysgrifbinnau<br>Pensiliau (trwchus a main)<br>Craeonau<br>Ysgrifbinnau ffelt<br>Ysgrifbinnau gel<br>Sialc/byrddau<br>Papur â llinellau<br>Papur plaen<br>Papur lliw<br>Papur siâp<br>Papur dargopïo<br>Llythrennau/magnetig ac ati<br>Byrddau gwyn/ysgrifbinnau<br>Llyfrau<br>Amlenni<br>Dilewyr<br>Naddwyr<br><br>Ychwanegiadau | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol**<br>Bydd y plant yn dechrau:<br>• Dewis chwarae yn yr ardal gwneud marciau.<br>• Derbyn amrywiaeth o weadau i wneud marciau arnynt.<br>• Archwilio ac arbrofi gyda hyder cynyddol.<br>• Cymryd troeon a rhannu.<br>• Canolbwyntio am gyfnodau hwy.<br>• Rhyngweithio a llunio cydberthnasau gyda phlant ac oedolion eraill.<br>• Dangos gofal, parch a hoffter tuag at blant ac oedolion eraill.<br>• Dewis adnoddau yn annibynnol.<br>**Datblygiad Mathemategol**<br>Bydd y plant yn dechrau:<br>• Archwilio nodweddion synhwyraidd gwneud marciau.<br>• Mwynhau gweithio mewn ardal sy'n rhoi profiad o siâp iddynt.<br><br>**Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**<br>Bydd y plant yn dechrau:<br>• Gwneud marciau archwiliadol gan ddefnyddio amrywiaeth o synhwyrau.<br>• Cyfathrebu gan ddefnyddio iaith lafar/arwyddion/ystumiau.<br>• Datblygu syniad o chwith a de.<br>• Ysgrifennu dros ysgrifen gan ddefnyddio'r synhwyrau.<br>• Sgriblo gyda bwriad.<br>• Datblygu dealltwriaeth fwy coeth o wrthrychau a all wneud marciau.<br>• Gwneud dewisiadau.<br>• Gwrando.<br>• Gwneud marciau archwiliadol ar bapur gan ddefnyddio amrywiaeth o offerynnau.<br>• Datblygu eu hymwybyddiaeth bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr.<br>• Mwynhau gwneud marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.<br>• Lliwio siâp amlwg gyda chymorth.<br>• Gwneud marciau rhwng dwy linell. |

Cynhelir y dysgu allweddol a ddangosir yn Ffigwr 4 o fewn themâu tymhorol a chaiff pob profiad dysgu ei gynllunio i ddiwallu anghenion y plant mewn ffordd gyfannol, gan gwmpasu sawl maes datblygu yn naturiol.

Gall athrawon ystyried y pwyntiau canlynol i'w helpu i gynllunio:

- Sut y byddaf yn ysgogi amrywiaeth llawn gwybodaeth flaenorol y dysgwyr ar ddechrau'r wers?
- Sut a phryd y byddaf yn rhannu'r deilliannau dysgu ac yn cynnwys y dysgwyr wrth ddatblygu meini prawf ar gyfer llwyddiant?
- Pa strategaethau addysgu y byddaf yn eu defnyddio? (gweler Atodiad 3, tudalen 64)
- Sut y gellir defnyddio cwestiynau i annog y dysgwyr i feddwl ac i ategu eu dysgu? Dylid ystyried y lefelau iaith a ddefnyddir yn ofalus gan roi cyfleoedd wedi'u cynllunio i'r dysgwyr gydweithredu a dod yn ddysgwyr cynyddol annibynnol.
- Pa weithgareddau fydd yn helpu'r dysgwyr i ddatblygu a dangos eu dealltwriaeth? Cynlluniwch amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon i roi mwynhad a sicrhau cyflymder a her briodol gyda chyfleoedd i'r dysgwyr weithredu/defnyddio gwybodaeth mewn ffordd gynyddol annibynnol.
- Pa ddeunyddiau fydd eu hangen?
- A yw cynllun cyffredinol y wers/gwersi yn gydlynol ac yn effeithiol?
- Sut a pha mor aml y byddaf yn rhoi adborth cefnogol i helpu'r dysgwyr i ddatblygu?
- Sut caiff y dysgu ei gofnodi? Pa dystiolaeth a gaiff ei nodi/ei chadw?

## O 'wahaniaethu' i 'drawsnewid y gallu i ddysgu'

Mae Simpson ac Ure (1994)[1] yn eu hastudiaeth o wahaniaethu yn dod i'r casgliad, na fydd unrhyw strategaeth gwahaniaethu yn effeithiol os nad yw athrawon yn ymateb i anghenion unigol dysgwyr neu os nad ydyn nhw yn gwybod sut i greu'r amodau sy'n eu caniatáu i wneud hynny. Maen nhw'n pwysleisio fod gan bob dysgwr anghenion cyffredin sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- **y cwricwlwm:** yr angen i gael lefelau priodol o waith; i wybod beth sydd i'w ddysgu; i gael targedau byrdymor realistig wedi'u pennu ar eu cyfer; i gael cymorth wrth feithrin sgiliau cydrannol neu ofynnol
- **gwybyddiaeth:** yr angen i gael esboniadau dealladwy; i gael achosion o gamddealltwriaeth a chamargraff wedi'u nodi a'u cywiro; i gael 'sgaffaldiau cysyniadol' a fydd yn galluogi iddyn nhw drefnu manylion neu ymhelaethu ar gysyniadau haniaethol; i gael strategaethau megis mapio cysyniadol i'w defnyddio wrth ddatblygu dealltwriaeth
- **rheoli dysgu:** yr angen i gael cymorth i hunan-reoli cyflymder y gwaith ac i reoli'r gwaith ei hun; i gael cymorth i ddeall sut i weithio'n fuddiol mewn grwpiau; i allu nodi strategaethau ar gyfer datrys problemau/mynd i'r afael â chwestiynau arholiad/cymryd nodiadau/amlygu pwyntiau allweddol/adolygu ac ati; i ddatblygu strategaeth ar gyfer gofyn am help gyda phroblemau
- **ffactorau cymhellol:** yr angen i gael eu cymell i ddysgu; i ddisgwyl llwyddiant a dilyniant o ran dysgu; i fod yn hyderus; i ddisgwyl i broblemau allu cael eu datrys; i gael nodau uchel ond cyraeddadwy; i gydnabod diben yn y broses ddysgu; i werthfawrogi'r sgiliau a'r wybodaeth a feithrinwyd yn yr ysgol ac i ddisgwyl iddyn nhw weithredu fel sail ar gyfer dysgu yn y dyfodol
- **ffactorau personol:** yr angen i faterion personol hynod gael eu hystyried, e.e. ar adegau o argyfwng/pwysau; i amgylchiadau personol gael eu hystyried, e.e. diffyg cyfleusterau i wneud gwaith cartref, diffyg cymorth gan rieni; i gael cymorth i wella sgiliau personol a rhyngbersonol; hunan-barch isel; i gael cymorth i ddelio â phwysau gan gyfoedion.

Y tu hwnt i hyn, gall dysgwyr fod yn wahanol o ran eu:

- profiadau a'u cyrhaeddiad blaenorol

[1] Simpson M, Ure J. *What's the difference? A study of differentiation in Scottish secondary schools* (Northern College Publications, 1994)

- datblygiad gwybyddol a chyflymder eu dysgu
- dewisiadau dysgu, gwahaniaethau corfforol
- cymhelliant, eu hagwedd, eu hymdrech a'u personoliaeth
- diddordebau, eu cryfderau a'u talentau.

Bydd lleoliadau/ysgolion ag ethos cadarnhaol, sy'n ystyried ffactorau cymdeithasol ac emosiynol sy'n effeithio ar ddysgu'r plant yn ymdrin â llawer o'r ffactorau cyffredin. Dylai'r pwyslais ar les yn y Cyfnod Sylfaen barhau drwy Gyfnodau Allweddol 2 a 3 a Llwybrau 14–19. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau pellach yn *Meddwl yn gadarnhaol – iechyd a lles emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar* ac wedi addasu'r deunyddiau agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu o'r Strategaeth Genedlaethol Gynradd yn Lloegr.

Mae *The ethic of everybody* (Hart ac eraill 2004) yn canolbwyntio ar anghenion amrywiol pob dysgwr trwy ystod o brofiadau diddorol. Dylai ymarferwyr/athrawon ganolbwyntio ar 'adeiladu capasiti dysgu' ac ystyried:

- addysgu – arddulliau yn cyfateb i anghenion/grwpiau, yn amrywio fel bo'n briodol ar gyfer y cynnwys, lefelau cymorth/strwythur hyblyg, lefelau iaith
- amgylchedd dysgu – grwpiau hyblyg, ethos sy'n derbyn amrywiaeth, profiadau sy'n adlewyrchu diddordebau'r dysgwyr, parch, cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau, amgylchedd ffisegol hygyrch.

Wrth symud o gynllunio ar gyfer y mwyafrif ac yna 'gwahaniaethu' i ddiwallu anghenion ychwanegol, gallai athrawon ystyried darparu dewisiadau o'r canlynol:

- cynnwys – cwmpas (cyflymder y dysgu, dilyniant, yr angen i ailystyried), cymhlethdod y cynnwys, strwythur y wers
- proses – datblygu a chymhwyso sgiliau meddwl, integreiddio sgiliau, cyffredinoli a throsglwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu aml-synhwyraidd
- cynnyrch/deilliannau – defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfleu'r dysgu, y dysgwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau asesu i ddangos yr hyn a ddysgwyd ganddyn nhw
- deunyddiau/adnoddau/offer – gan gynnwys cymhorthion technolegol i hwyluso'r broses gyfathrebu/mynediad
- gwaith cartref.

Dylai ymarferwyr/athrawon ddatblygu 'iaith ar gyfer dysgu' gyda'r dysgwyr er mwyn iddyn nhw ddod yn ymwybodol o'u cryfderau eu hunain a ffyrdd o fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau. Gellir 'olrhain' dysgwyr er mwyn monitro eu profiad a sicrhau eu bod yn manteisio ar gwricwlwm amrywiol gyda chydbwysedd o weithgareddau ac arddulliau addysgu, 1:1 a gwaith grŵp/dosbarth.

Gall olrhain o'r fath wirio bod y rhaglen gyfan yn gydlynol, gydag unrhyw ailadrodd wedi ei gynllunio a chyswllt rhwng Meysydd Dysgu/pynciau yn cael eu nodi. Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddysgu sgiliau newydd ac wedyn eu hatgyfnerthu a'u defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau er mwyn cynyddu eu gallu i ddysgu'n annibynnol. Gellir cyflawni hyn drwy gylchdroi grwpiau drwy amrywiaeth o dasgau, lle gall grwpiau ganolbwyntio ar ddatblygu sgil, atgyfnerthu'r sgil neu weithio'n fwy annibynnol ar sgiliau 'diogel'. Er mwyn helpu dysgwyr gydag amrywiaeth ehangach o anghenion, mae'n bosibl y gellid tynnu tasgau yn ddarnau, gan ddyrannu gwahanol rannau o'r gweithgaredd cyfan i wahanol unigolion, parau neu grwpiau gan ddibynnu ar eu cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Gall hyn, mewn rhai achosion, roi profiad mwy cyfannol i'r dysgwyr na'r profiad a geir wrth gyflwyno tasgau ar ffurf camau bach gan arwain at golli golwg ar y diben/canlyniad terfynol.



# Diwallu anghenion dysgwyr mwy galluog a thalentog

Ym mhob ysgol, ceir grŵp o ddysgwyr sydd angen eu hymestyn, waeth sut byddan nhw'n cymharu â dysgwyr mwy galluog a thalentog mewn ysgolion eraill. Ni ellir gwahanu anghenion dysgwyr mwy galluog a thalentog oddiwrth y symudiad i godi safonau ar gyfer yr holl ddysgwyr – i ddyfynnu Renzulli (1998) 'A rising tide lifts all ships'.

Rhoddwyd arweiniad ar ddiwallu anghenion dysgwyr mwy galluog a thalentog yn *Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad* (ACCAC, 2003). Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar adnabod dysgwyr mwy galluog, dulliau o drefnu a grwpio dysgwyr ac ehangu a chyfoethogi eu dysgu, ac mae'n dal yn berthnasol.

Mae *Cyflawni'r Her – Safonau Ansawdd ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yn darparu fframwaith clir ar gyfer datblygiad darpariaeth o ansawdd i'r ysgol gyfan gan roi sylw i'r meysydd canlynol mewn strategaeth ysgol gyfan:

- dynodi, targedau ar gyfer gwella
- defnyddio ystod o wahanol arddulliau dysgu, dulliau addysgu a strategaethau trefniadol
- cwricwlwm hyblyg a darpariaeth i ddiwallu anghenion bugeiliol
- adolygiadau i ganfod tangyflawni ac i gynnig cymorth i ddysgwyr unigol yn cynnwys y rhai eithriadol o alluog
- ymrwymiad i wella sgiliau staff a datblygu adnoddau pwrpasol
- gwrando ar farn dysgwyr a rhieni/gofalwyr a gweithio gydag ystod eang o bartneriaid
- sefydlu gweithdrefnau ar gyfer monitro cynlluniau gweithredu ac effeithiolrwydd polisi'r ysgol.

Rhaid i ddarpariaeth sy'n herio dysgwyr mwy galluog fod yn rhan annatod o gynllun cwricwlwm ysgolion. Mae'r ffactorau canlynol yn cyfrannu at welliannau o ran cyrhaeddiad i bob dysgwr:

- darparu amgylchedd dysgu a fydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu potensial ac yn eu hannog i wneud hynny
- hinsawdd sy'n gwerthfawrogi ac yn gwella gallu deallusol, talent, creadigrwydd a phrosesau gwneud penderfyniadau
- cyfleoedd i ddatblygu meddwl, gan gynnwys dadansoddi, cyfosod a gwerthuso.

Trwy ehangu'r hyn sydd ar gael i bob dysgwr y sicrheir y ddarpariaeth orau ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog. Mae'r athro/athrawes yn greiddiol i'r broses gan ddefnyddio ei sgiliau proffesiynol a'i fethodoleg ymchwil weithredu – wedi'i monitro'n ofalus – i wneud addasiadau yn seiliedig ar ganfyddiadau.

Mae'r ffordd hon o weithredu yn addas iawn ar gyfer gwaith presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ddatblygu Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu. Mae adborth o'r project datblygu wedi dangos potensial i wella dulliau holi a datblygu sgiliau meddwl lefel uwch, myfyrio a gwerthuso i bob dysgwr.

Ceir gwybodaeth pellach ar wefan NACE Cymru yn:

www.nace.co.uk/nace/cymru/nace_cymru_wales.htm

Ceir canllawiau pellach ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4 yn *Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

## Defnyddio'r fframwaith sgiliau

Mae datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif yn sail i holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, fframweithiau'r Cyfnod Sylfaen, ABCh ac addysg grefyddol. Bydd y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Ngymru* yn cynorthwyo lleoliadau/ysgolion i ddatblygu cwricwlwm sy'n:

- diwallu anghenion dysgwyr
- gynhwysol ac yn rhoi cyfle cyfartal
- rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin sgiliau trosglwyddadwy
- berthnasol, yn heriol, yn ddiddorol ac yn rhoi boddhad i bob dysgwr
- trawsnewid dysgu i gynhyrchu dysgwyr gydol oes medrus, gwydn a myfyriol.

Ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth, mae deunyddiau'r *Ar Drywydd Dysgu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006) yn rhoi arweiniad ar sgiliau cyfathrebu a gwybyddol cynnar.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu datblygu canllawiau ar asesu ac addysgu sgiliau i ddysgwyr ag anawsterau dysgu.

## Y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol

Mae addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i bob dysgwr o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir ond mae'n aml yn flaenoriaeth i ddysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae'r *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yn adlewyrchu continwwm o Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y Cyfnod Sylfaen drwy Gyfnodau Allweddol 2 a 3 ac i'r Llwybrau Dysgu 14–19. Mae'r pump thema allweddol yn cynnwys pwyslais cynyddol ar ddatblygu sgiliau fel a ganlyn:

- Dinasyddiaeth Weithgar
- Iechyd a lles emosiynol
- Datblygiad moesol ac ysbrydol
- Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes
- Datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Er bod y fframwaith yn darparu sail ar gyfer ymagwedd eang, cytbwys a chyfannol tuag at ABCh, mae llawer o brofiadau a chyfleoedd dysgu eraill sy'n rhan o ethos a bywyd cymunedol yr ysgol yn gwneud cyfraniad pwysig.

O ran dysgwyr sydd dros saith oed, sy'n gweithio ar lefelau datblygu cynharach, ceir canllawiau penodol ar ABCh (yn cynnwys ABCh i ddysgwyr ag anghenion difrifol/dwys a lluosog) ar wefan ABCh Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgbersonolachymdeithasol

## Y Cyfnod Sylfaen

Mae gan y Cyfnod Sylfaen i blant 3–7 oed ei fframwaith ei hun, yn seiliedig ar saith Maes Dysgu. Am ragor o wybodaeth ewch i www.cymru.gov.uk/cyfnodsylfaen

Ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth, bydd dulliau llai ffurfiol y Cyfnod Sylfaen yn ategu'r ddarpariaeth. Ar gyfer y grŵp hwn, mae angen ystyried pob safbwynt perthnasol, e.e. anghenion y teulu, nodi blaenoriaethau a llunio rhaglen astudio 'cyfatebiaeth orau'. Mae angen i'r cwricwlwm ddarparu profiad cyfannol er mwyn iddo wneud synnwyr i'r dysgwyr a gallai gweithgareddau gwahaniaethu gynnwys ymgorffori amrywiol therapïau ac ailystyried Meysydd Dysgu/themâu perthnasol. Bydd hyn yn darparu dull gweithredu mwy priodol ar gyfer y rheini y gellir mesur eu dilyniant drwy weld cynnydd mewn ymwybyddiaeth/ymateb neu'r gallu i ddangos yr un cyflawniad sawl gwaith yn olynol. Mae'r modylau ym Mhecyn Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ar anghenion dysgu ychwanegol ac ymyrraeth gynnar yn pwysleisio'r angen i gyfateb y cwricwlwm i lefel datblygiad plant unigol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ymwneud â datblygu dyheadau, cymhelliant, sgiliau cymdeithasu, hunan-barch a meistrolaeth o ddysgu y plant.

## Cwricwlwm ac asesu 8–14

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu cwricwlwm ac asesu 8–14 ar hyn o bryd i sicrhau parhad o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Lwybrau Dysgu 14–19. Bydd canolbwyntio ar ddysgwyr 8–14 yn gwella cysondeb wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 ac yn dod â gwaith ar ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu, addysgeg, datblygiad sgiliau a systemau sicrhau dibynadwyedd asesiad athrawon ynghyd.

## Llwybrau Dysgu 14–19

Dylai elfennau allweddol Llwybrau Dysgu 14–19 ddiwallu anghenion unigol pob dysgwr yn fwy effeithiol a hyrwyddo parhad a dilyniant rhwng Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Mae'r nodweddion allweddol fel a ganlyn:

- llwybrau dysgu wedi'u teilwra'n unigol
- dewis ehangach a mwy o hyblygrwydd o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu, gan gynnwys profiadau o bob agwedd ar fywydau dysgwyr
- Craidd Dysgu sy'n rhedeg o 14 oed i 19 oed lle bynnag bo pobl ifanc yn dysgu
- cymorth Anogwr Dysgu
- gwybodaeth a chyfarwyddyd diduedd ar yrfaoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am Lwybrau Dysgu 14–19 gweler www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Dengys yr astudiaeth achos isod sut mae un ysgol arbennig yn bwriadu diwallu anghenion dysgwyr 14–19.

## Astudiaeth achos 1

**Cyd-destun**

Ysgol arbennig 3–19 oed yn Ne Cymru.

**Cefndir**

Mae'r ysgol yn defnyddio EQUALS 'Moving On' – wedi'i achredu o unedau AQA, wedi'i addasu ar gyfer ei hanghenion a Chynlluniau Gwaith EQUALS ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4 fel sail ar gyfer cynllunio. Defnyddir rhaglen dreigl pum mlynedd er mwyn osgoi achosion o ailadrodd, cynnal ehangder a chydbwysedd a bodloni hawl dysgwyr o ran pynciau sy'n cynnwys gyrfaoedd a'r byd gwaith.

Mae pob pwnc yn darparu cyd-destunau ar gyfer dilyniant sgiliau allweddol a chesglir tystiolaeth o bynciau craidd y cwricwlwm cenedlaethol gydag enghreifftiau pellach o bynciau nad ydyn nhw'n bynciau craidd, yn gyffredinol o ysgolion/colegau a lleoliadau cymunedol megis profiad gwaith.

Ysgrifennwyd unedau achredu AQA (a gymedrolir yn allanol) gan gwmpasu nodweddion graddfeydd p 1–8 a Lefel Mynediad 1. Caiff targedau eu pennu ar gyfer cyflawniad dysgwyr sy'n cwmpasu amrywiaeth o ddulliau achredu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Caiff llwybrau dysgu unigol eu cynllunio yn ôl yr angen gyda rhai dysgwyr yn dilyn cyrsiau lefel Mynediad mewn coleg lleol. Caiff y cyrsiau hyn eu cynllunio'n ofalus i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr unigol ac nad ydyn nhw'n cael eu harwain gan gynnwys. Ysgrifennwyd tri chwrs galwedigaethol yn ddiweddar gyda'r coleg lleol.

Cedwir tystiolaeth 'Moving On' fel Cofnod o Gyrhaeddiad parhaus ac mae'r myfyrwyr a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cofnod hwn yn fawr. Mae'r Cofnod o Gyrhaeddiad hefyd yn cynnwys cofnod cyfunol, tystysgrifau, datganiad personol ac ati.

Mae'r cynllun asesu ar gyfer dysgu sy'n mynd rhagddo yn canolbwyntio ar sgiliau allweddol. Mae hyn wedi arwain at Gofnodion o Gyrhaeddiad â gwell ffocws gan fod deilliannau dysgu yn cael eu nodi gyda'i gilydd gyda'r lefel o help/anogaeth a roddwyd. Er mwyn darparu fframwaith ar gyfer deilliannau sgiliau allweddol, dewiswyd dangosyddion perthnasol o gynllun rhifedd 'B Squared', cynllun gwaith yr ysgol ar gyfer Ymholiadau Gwyddonol a Saesneg.

Mae'r cynlluniau addysgu unigol (CAU) yn canolbwyntio ar sgiliau allweddol ac ymddygiad. Pennir tri tharged bob blwyddyn yn ôl angen unigol (nid o restr wirio a ddiffiniwyd ymlaen llaw). Mae'r CAU hefyd yn llywio gweithgareddau gwahaniaethu, gan alluogi'r cwricwlwm ehangach i gael ei deilwra i gyflawni targedau sgiliau allweddol a blaenoriaethau unigol.

Mae'r athrawon yn ysgrifennu cynllun tymhorol sydd wedi symud o gynllun a oedd yn canolbwyntio ar weithgareddau i ffocws cliriach ar ddeilliannau penodol, wedi'u gwahaniaethu i'r tair lefel ganlynol:

- p 1–3
- p 4–6
- p 7 – Lefel 1 y cwricwlwm cenedlaethol.

(Yn dilyn gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig, gallai'r tri grŵp hyn gael eu hystyried fel *Ar Drywydd Dysgu*, deilliant 1 a 2 y cwricwlwm cenedlaethol, deilliant 3 y cwricwlwm cenedlaethol/ Lefel 1 y cwricwlwm cenedlaethol).

Mae fformat y cynllun yn cynnwys pedair colofn ar gyfer datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a TGCh a nodir deilliannau ar gyfer dysgwyr yn y tri band a amlinellwyd uchod o dan benawdau sgiliau allweddol priodol.

Nid deilliannau ffug a ddefnyddir ac fe'u dyrennir i'r sgil allweddol sy'n gweithredu fel y prif 'ysgogwr' o ran sicrhau bod y dasg/ gweithgaredd yn cynhyrchu'r canlyniad dymunol.

## Pontio

Mae angen rheoli'r broses o bontio rhwng pob cyfnod addysg yn ofalus. Mae trefniadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru bellach yn cael eu hystyried yn gyfanwaith cydlynol a fydd yn sicrhau gwell parhad i ddysgwyr 3–19 oed o bob gallu.

Ar gyfer pob dysgwr sy'n symud o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, bydd angen i ysgolion sicrhau parhad rhwng Meysydd Dysgu a phynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.

Mae angen rhoi cynlluniau pontio ar waith a fydd yn helpu dysgwyr sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae'n ofynnol i ysgolion cynradd ac uwchradd gydweithio er mwyn sicrhau cydlyniaeth o ran:

- y cwricwlwm (gan gynnwys cynlluniau gwaith a rennir, unedau pontio, parhad ieithyddol)
- parhad a dilyniant o ran dysgu
- parhad o ran yr asesu a'r addysgu
- trosglwyddo trefniadau bugeiliol yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion personol/cymdeithasol dysgwyr
- trosglwyddo gwybodaeth o ran cyflawniad ac ymddygiad
- manylion am anghenion dysgu pob dysgwr, yn arbennig y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol
- safoni asesiad athrawon.

Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghylchlythyr 30/2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru *Canllawiau ar Baratoi Cynlluniau Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.*

# Cwestiynau cyffredin am y cwricwlwm – atebion

**Cwestiwn 1**

**Faint o amser y dylwn i anelu at ei dreulio ar bynciau craidd a phynciau sylfaen?**

Nid oes unrhyw amseroedd a ddynodir yn genedlaethol ar gyfer pynciau penodol a dylai ysgolion bennu faint o amser a ddyrennir i wahanol elfennau'r cwricwlwm bob wythnos, bob hanner tymor, bob tymor neu bob blwyddyn gan ystyried anghenion y dysgwyr. Er bod y cwricwlwm cenedlaethol wedi'i rannu'n bynciau, nid oes unrhyw ofyniad i'w haddysgu ar wahân.

Gall lleoliadau/ysgolion reoli eu hamser mewn amrywiaeth o ffyrdd er enghraifft:

- dyrannu amser bob dydd i feysydd fel cyfathrebu yr ystyrir eu bod yn flaenoriaethau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr
- addysgu rhai pynciau mewn blociau gan newid y pwnc bob hanner tymor/tymor, e.e. daearyddiaeth, hanes
- dewis a blaenoriaethu'r cynnwys mwyaf perthnasol o raglenni astudio pynciau – addysgu'r cynnwys hwn yn fanwl, ond ymdrin â gweddill y cynnwys yn fras neu ei ddefnyddio fel cyd-destun ar gyfer datblygu meddwl/sgiliau allweddol/sgiliau personol a chymdeithasol ac ati
- trefnu pynciau yn grwpiau o dan destunau/themâu a nodi sgiliau trawsgwricwlaidd perthnasol/â blaenoriaeth
- parhau â rhaglenni personol, cymdeithasol dysgwyr yn ystod amser cinio ac ati ac archwilio'n llawn botensial arferion beunyddiol fel cyfleoedd dysgu
- pennu ffocws mwy dwys ar un/dau faes pwnc dros gyfnod o wythnos, e.e. wythnos y celfyddydau.

Dylai lleoliadau/ysgolion, dros amser, adolygu a diwygio eu dogfennau gan ystyried y cwricwlwm ysgol (2008). Gall hyn gynnwys datganiadau cwricwlwm yr ysgol gyfan, dogfennau polisi a chynlluniau pwnc/canllawiau/cynlluniau gwaith.

Yn yr un modd, nid oes unrhyw amseroedd a ddynodir yn genedlaethol ar gyfer y Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Dylid cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn modd cyfannol, gan roi cyfle i blant gychwyn gweithgareddau. Nid yw'n bosib gosod dysgwyr ifanc mewn adrannau a dylid datblygu sgiliau trosglwyddadwy ar draws yr holl Feysydd Dysgu trwy brofiadau diddorol a chynhwysfawr.

## Cwestiwn 2

**Sut y gallaf gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen cymysg a/neu ddosbarthiadau cyfnodau allweddol cymysg?**

Dylai'r hyblygrwydd yn fframwaith y cwricwlwm a'r ffocws cynyddol ar ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd helpu ysgolion bach i ddiwallu amrywiaeth llawn anghenion eu dysgwyr. Ymhlith y strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion mae:

- cynllunio ar draws rhaglenni astudio gwahanol gyfnodau allweddol er mwyn darparu'r 'gyfatebiaeth orau' i ddiwallu anghenion dysgwyr
- dewis themâu priodol i'w defnyddio (efallai fel rhan o raglen dreigl) fel cyd-destun ar gyfer amrywiaeth o ddeilliannau er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr
- dewis amrywiaeth o adnoddau ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau
- cysylltu ag ysgolion eraill (arbenigol/prif ffrwd) a'r gymuned i roi cyfleoedd ar gyfer gwahaniaethu a dilyniant i ddysgwyr hŷn yn y grŵp.

## Cwestiwn 3

**Rwyf yn addysgu dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol. Sut y gallaf gynllunio i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer dilyniant y tu hwnt i'r gwelliant hierarchaidd o ran sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth?**

Yn ogystal â sgiliau newydd a gwell gwybodaeth a dealltwriaeth, gellir dangos dilyniant drwy a rhwng cyfnodau allweddol drwy:

- gynyddu ehangder cynnwys y cwricwlwm
- creu cyfleoedd i atgyfnerthu, cynnal a chyffredinoli sgiliau/cysyniadau
- rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer creadigrwydd/dysgu drwy brofiad a phrofiad o amrywiaeth ehangach o arddulliau a dulliau dysgu/addysgu
- cynyddu cyfranogiad y dysgwyr yn y broses dysgu ac asesu drwy gynnwys cyfleoedd iddyn nhw drafod a negodi
- ehangu cyd-destunau dysgu i gynnwys mwy o sefyllfaoedd sy'n briodol i oedran, amrywiaeth ehangach o bobl a lleoliadau amgylcheddau, yr ysgol, y gymuned, profiad gwaith

- rhoi cyfleoedd i ymarfer sgiliau a chymhwyso gwybodaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol perthnasol gydag annibyniaeth gynyddol, gan baratoi at fywyd fel oedolyn.

Ar gyfer dysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth, rhaid i'r llwybr tuag at annibyniaeth gael ei ystyried fel mwy na 'gwneud drosoch eich hun'. Dim ond rhannau bach o weithgaredd cyfan bydd llawer o ddysgwyr ag anghenion o'r fath byth yn gallu eu gwneud oherwydd eu namau corfforol/namau ar y synhwyrau. Yn y fath sefyllfa, mae cyfranogiad a rennir neu gyfranogiad rhannol yn bwysig.

Ni ddylid allgáu dysgwyr o weithgareddau am na allan nhw gyflawni'r dasg gyfan neu ddatblygu annibyniaeth yn y maes hwnnw. Rhaid i'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth ystyried y gall y gallu i gyfranogi'n rhannol neu gydweithredu, er enghraifft, mewn arferion gofal personol, wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd y dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr.

Rhydd Atodiad 4 wybodaeth ar fodelau cwricwlaidd a dilyniant i ddysgwyr ag anghenion mwy cymhleth a cheir rhagor o wybodaeth yn y canllawiau *Ar Drywydd Dysgu.*

## Cwestiwn 4

**Rwyf yn addysgu dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 ag anhwylder sbectrwm awtistig mewn ysgol brif ffrwd. Maen nhw'n cael anawsterau penodol gyda Chymraeg a Ffrangeg ac mae rhai rhieni wedi gofyn iddyn nhw gael eu datgymhwyso. Beth y dylwn ei ddweud wrthyn nhw?**

Dylai fframwaith y cwricwlwm a ddarperir gan y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol fod yn sail ar gyfer cwricwlwm perthnasol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol iawn y dylid gorfod datgymhwyso dysgwyr drwy Ddatganiad o AAA (o dan Adran 92 o Ddeddf Addysg 2002) neu dros dro (o dan Adran 93 o Ddeddf Addysg 2002). Mae'r datganiad 'Cynnwys pob dysgwr' yn pwysleisio bod digon o hyblygrwydd yn fframwaith y cwricwlwm i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod eu datgymhwyso ac na ddylid datgymhwyso grwpiau neu garfanau mawr o ddysgwyr.

Cyn ystyried unrhyw fath o ddatgymhwyso, dylai ysgolion sicrhau bod ganddyn nhw dystiolaeth o'r amrywiaeth o strategaethau/dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd ynghyd â'r canlyniadau. Dylid ystyried pob achos yn unigol a chydymffurfio â'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys. Ni ddylid defnyddio'r broses o ddatgymhwyso i greu amser i roi cymorth sgiliau sylfaenol ychwanegol. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatgymhwyso, gan gynnwys gwybodaeth am gyfarwyddiadau cyffredinol ac arbennig a cheisiadau ac apeliadau gan rieni/gofalwyr yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

O ran addysgu Cymraeg ac ieithoedd tramor modern, mae'n bosibl bydd yr astudiaeth achos isod yn cyflwyno rhai syniadau defnyddiol o ran defnyddio'r ieithoedd hyn fel cyd-destun newydd a diddorol ar gyfer addysgu amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu.

## Astudiaeth achos 2

Mae'r Uned Gyfathrebu mewn Ysgol Uwchradd yng Ngogledd Cymru yn helpu dysgwyr ag amrywiaeth o anhwylderau yn y sbectrwm awtistig.

Caiff ieithoedd eu hystyried fel cyfle i ddechrau o'r newydd o ran datblygu sgiliau cyfathrebu a meithrin hunan-barch mewn amrywiaeth o gyd-destunau sy'n briodol ar gyfer oedran y dysgwyr. Ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr, nid yw'r dull traddodiadol o addysgu ieithoedd (e.e. mewn 2/3 gwers unigol bob wythnos) yn arwain at lwyddiant mawr. Mae'r angen i addysgu ieithoedd mewn cyd-destun er mwyn cynyddu cymhelliant a diddordeb yn sail i ddull gweithredu'r ysgol. Un o nodweddion allweddol y gwersi iaith yw'r pwyslais ar iaith y corff a chyfathrebu dilafar i ategu'r dysgu. Mae'r agwedd hon yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig sy'n ei chael hi'n anodd iawn, er enghraifft, i ddarllen mynegiant yr wyneb. Anogir y dysgwyr i ddefnyddio eu hwynebau, eu dwylo neu eu corff cyfan wrth siarad yr iaith darged ac i roi sylw penodol i'r agweddau hyn er mwyn ategu'r wybodaeth a geir wrth wrando.

Ystyrir bod cyswllt agos rhwng Cymraeg (a addysgir yn yr ysgol hon fel ail iaith) a'r Cwricwlwm Cymreig a gweithgareddau cyfoethogi diwylliannol, fel Eisteddfod yr ysgol a dathliadau eraill. Cynhelir cwrs preswyl bob blwyddyn yng Nglan Llyn (Canolfan yr Urdd ger y Bala). Mae dysgwyr yn paratoi ar gyfer y daith hon drwy ddysgu'r iaith bydd angen iddyn nhw ei defnyddio mewn sefyllfaoedd bob dydd – a gaiff ei haddysgu drwy chwarae rôl, gemau ac ati. I'r dysgwyr hyn, gall cyfleoedd i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol fod yn elfen bwysig arall.

Caiff Ffrangeg ei haddysgu mewn ffordd debyg a chynhaliwyd Diwrnod Ffrangeg ar y cyd ag ysgol arbennig leol. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau ymarferol, penodol (gan gynnwys 'petit dejeuner!') gyda chyfleoedd strwythuredig i ddysgu ac ymarfer Ffrangeg bob dydd a meithrin gwybodaeth am rai o ddigwyddiadau hanes Ffrainc (Diwrnod Bastille).

## Cwestiwn 5

**I lawer o'n dysgwyr bydd sgiliau fel cyfathrebu a datblygu meddwl yn flaenoriaethau. A fydd y meysydd hyn yn ganolbwynt priodol ar gyfer eu cynlluniau addysgu unigol (CAUau)?**

Mae CAUau, sy'n nodi blaenoriaethau i'r dysgwyr roi sylw iddyn nhw ar draws y cwricwlwm, yn allweddol o ran llywio gwahaniaethu effeithiol, a fydd yn ei dro yn ategu dysgu mwy effeithiol a chyfraddau cynnydd gwell.

Mae'r enghreifftiau ar y dudalen nesaf yn dangos sut mae un ysgol arbennig eisoes yn cynllunio gan ganolbwyntio ar sgiliau allweddol. Caiff y dysgwyr eu cynnwys yn y broses o gofnodi a gwella eu perfformiad eu hunain a gweithiant i ennill sêr ymhob un o'r tri maes (sy'n amrywio yn ôl oedran y dysgwr). Mae'r enghreifftiau ar gyfer dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'r ffocws ar sgiliau allweddol a phrofiad gwaith/coleg ac Asdan. Lle mae datblygiad synhwyraidd a/neu gorfforol yn flaenoriaeth, ychwanegir y maes hwn hefyd.

Trafodir y cynnydd a wneir bob tymor tuag at bob targed gyda'r dysgwyr ac fe'i cofnodir fel a ganlyn: 1 seren = profiadol, 2 seren = yn gwneud cynnydd, 3 seren = wedi llwyddo!

Ffig. 5: Enghreifftiau o gynlluniau addysgu unigol

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTORS IN PEOPLE

## CAU – Ein Allwedd i Lwyddiant
(Cyfnod Allweddol 2-3)

Enw **Joanna** Athro/Athrawes **B. Jones** Dyddiad Cyhoeddi **Ionawr**

| Nodau Blynyddol | Lefel |
|---|---|
| Cyfrif, darllen a rhoi trefn ar rifau o 0 i 20, ac adio a thynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych | CC1 |
| Ysgrifennu ei henw ei hun a rhai geiriau syml ac adnabod a darllen amrywiaeth cynyddol o eiriau cyfarwydd | P8 S&L/Darllen P7 Ysgrifennu |
| Parhau i ddatblygu annibyniaeth mewn lleoliadau cyfarwydd | Dd/g |

Gwybodaeth a chymhwyso rhif*, mathemateg, Technoleg Gwybodaeth*, Datrys problemau*, Synhwyraidd

**Asesiad/Sylwadau'r athro/athrawes**
Mae Joanna wedi gweithio'n dda i gyflawni ei thargedau yn y maes hwn. Mae wedi atgyfnerthu ei gwybodaeth am rif a'i sgiliau gyda rhifau hyd at 15 a bellach gall gyfrif a darllen rhifau hyd at 15. Mae Joanna hefyd wedi dechrau datblygu ei sgiliau adio a thynnu sylfaenol gan ddefnyddio cyfarpar ymarferol.
Mae'n raddol yn dod yn fwy hyderus wrth ymgymryd â gweithgareddau datrys problemau ond mae'n tueddu i fod angen cymorth i fynd i'r afael â'r tasgau hyn o hyd.

**Targed y Tymor**
Rwyf yn dysgu adio rhifau hyd at 10

| Byddaf yn anelu at.... | ☆ | ☆☆ | ☆☆☆ |
|---|---|---|---|
| 1. Cyfrif ac ysgrifennu sawl gwrthrych sydd mewn dau grŵp, gyda help i ysgrifennu'r swm | | | |
| 2. Cyfrif ymlaen o rif a roddir gan ddefnyddio stribed rhifau, gyda chymorth | | | |
| 3. Dod o hyd i wahanol ffyrdd o 'rannu' grŵp o wrthrychau ac ysgrifennu swm | | | |

Saesneg, llythrennedd, Cyfathrebu*

**Asesiad/Sylwadau'r athro/athrawes**
Mae Joanna yn mwynhau gweithio yn y maes hwn yn arbennig ac mae wedi gweithio'n galed i gyflawni ei thargedau. Mae bellach yn dechrau datblygu sgiliau darllen annibynnol ac yn dechrau adnabod a darllen rhai geiriau allweddol. Mae Joanna wedi llwyddo i ddarllen 'help', 'ni' a 'hoffi' o'u gweld ar gardiau fflach ac mae newydd ddechrau adnabod y geiriau hyn pan fyddant yn ymddangos yn ei llyfr darllen.
Mae Joanna wedi datblygu sgiliau gwrando ardderchog ac mae'n dechrau ateb cwestiynau yn y dosbarth yn fwy hyderus.

**Targed y Tymor**
Rwyf yn dysgu ysgrifennu rhai llythrennau a darllen rhai geiriau ar fy mhen fy hun

| Byddaf yn anelu at.... | ☆ | ☆☆ | ☆☆☆ |
|---|---|---|---|
| 1. Teipio fy enw ar y cyfrifiadur | | | |
| 2. Ysgrifennu 'o', 'a', 'c' a 'v' drwy gopïo o dan lawysgrifen oedolyn | | | |
| 3. Darllen fy neuddeg gair allweddol o'r cardiau fflach heb gymorth | | | |

Chi eich hun, ABCh, gweithio gydag eraill*, unrhyw sgiliau ychwanegol ar draws y cwricwlwm.

**Asesiad/Sylwadau'r athro/athrawes**
Mae Joanna wedi datblygu ei sgiliau hunan-gymorth ac annibyniaeth yn gyflym ac mae'n aeddfedu'n gyflym i fod yn fyfyrwraig ifanc synhwyrol ac ystyrlon. Nid yw'n ymateb yn amhriodol mwyach os caiff ei cheryddu, ac yn wir, anaml iawn y bydd yn croesi'r ffin o ran y safonau ymddygiad a ddisgwylir.
Mae Joanna wedi mwynhau'r cyfle i wella ei dysgu ei hun ac i ddatblygu mwy o annibyniaeth. Mae wedi helpu i wneud diodydd i'w chyd-ddisgyblion a bydd yn trefnu ei hun a'i hadnoddau ar ddechrau'r dydd heb unrhyw anogaeth gan unrhyw un arall i wneud hynny.

**Targed y Tymor**
Rwyf yn dysgu gweithio ar fy mhen fy hun

| Byddaf yn anelu at.... | ☆ | ☆☆ | ☆☆☆ |
|---|---|---|---|
| 1. Edrych drwy fy llyfr yn y bore heb anogaeth gan unrhyw un arall i wneud hynny | | | |
| 2. Dechrau fy ymarferion ysgrifennu heb anogaeth gan unrhyw un arall i wneud hynny | | | |
| 3. Gwisgo fy nghot ac yn ei chau heb unrhyw help | | | |

NODYN: * yn dynodi Sgil Allweddol

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTORS IN PEOPLE

## CAU – Ein Allwedd i Lwyddiant
(Sylfaen)

Enw **Rhys** Athro/Athrawes **L.Brown** Dyddiad Cyhoeddi **Ionawr**

| Nodau Blynyddol | Lefel |
|---|---|
| Gwneud marciau neu symbolau yn fwriadol. | P4 |
| Datblygu sgiliau chwarae dychmygus. | P3ii |
| Datblygu rhywfaint o annibyniaeth adeg byrbryd. | P3i |

Gwybodaeth a chymhwyso rhif*, Datblygiad mathemategol, Iaith a Llythrennedd, Cyfathrebu*, Technoleg Gwybodaeth*, Datrys problemau

**Asesiad/Sylwadau'r athro/athrawes**
Ar hyn o bryd, mae Rhys yn dysgu defnyddio'r arwyddion am 'helo', 'mwy' a 'diolch' (Signalong). Mae'n gwylio'n ofalus wrth i ni ddefnyddio arwyddion i gyfathrebu ag ef, ac weithiau bydd yn efelychu'r arwyddion gyda chymorth. Mae Rhys yn mwynhau gweithgareddau grŵp yn cynnwys straeon a rhigymau actol/rhifau ac yn ymateb yn dda iddynt.
Mae angen datblygu ei sgiliau echddygol manwl, ond fel arfer mae'n fwy na pharod i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud marciau.Mae'n dysgu defnyddio'r pen rhyngweithiol i ddefnyddio amrywiaeth o raglenni dysgu ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.
Rydym yn annog Rhys i gyfrif gwrthrychau ac mae wedi llwyddo i gyfrif hyd at dri ar hyn o bryd, ac mae newydd ddechrau defnyddio ei fysedd i'n hefelychu yn cyfrif.

**Targed y Tymor**
Rwyf yn dysgu datblygu fy rheolaeth o wrthrychau bach.

| Byddaf yn anelu at.... | ☆ | ☆☆ | ☆☆☆ |
|---|---|---|---|
| Defnyddio pin rholio i newid siâp 'play doh' (gydag anogaeth lafar, 3/5 gwaith) | | | |
| Defnyddio pensil i wneud marciau ar bapur (gydag anogaeth gorfforol, 3/5 gwaith) | | | |
| Gosod 5 bloc bach ar ben ei gilydd i wneud tŵr (copïo model oedolyn, 3/5 gwaith) | | | |

Sgiliau archwilio a chwarae, Synhwyraidd

**Asesiad/Sylwadau'r athro/athrawes**
Mae Rhys yn dangos chwilfrydedd pan fydd yn gweld rhywbeth newydd neu wahanol. Mae'n hoff iawn o archwilio teganau newydd am gyfnod byr, ac yn arbennig yn mwynhau archwilio gwahanol ddeunyddiau a gweadau sy'n wlyb. Bydd Rhys yn eistedd gydag oedolyn ac yn chwarae'n braf gan basio pêl yn ôl ac ymlaen. Mae'n dangos ymwybyddiaeth dda o'r eitemau gwahanol yn y gornel gartref ac mae'n dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl.

**Targed y Tymor**
Rwyf yn dysgu mwynhau gweithgareddau chwarae rôl.

| Byddaf yn anelu at... | ☆ | ☆☆ | ☆☆☆ |
|---|---|---|---|
| Copïo gweithredoedd (gydag anogaeth lafar yn y Gornel Gartref, 3/5 gwaith) | | | |
| Chwarae'n briodol gydag oedolyn/yn annibynnol yn y Gornel Gartref (3/5 gwaith) | | | |
| Chwarae'n briodol gydag oedolyn/ffrind yn y Gornel Gartref (3/5 gwaith) | | | |

Chi eich hun, ABCh, gweithio gydag eraill*, unrhyw sgiliau ychwanegol ar draws y cwricwlwm.

**Asesiad/Sylwadau'r athro/athrawes**
Mae Rhys wedi ymgartrefu yn yr ysgol yn dda iawn. Mae'n fachgen bach hapus a phrysur sy'n rhyngweithio'n dda gyda thîm y dosbarth. Mae'n dangos ymwybyddiaeth dda o'i gyd-ddisgyblion, ac mae'n dechrau rhyngweithio â hwy.
Mae Rhys yn dibynnu ar gymorth ei ofalwyr ar gyfer ei holl anghenion personol. Serch hynny, gall fwydo ei hun, ond i rywun ei atgoffa i gymryd ei amser. Ar hyn o bryd, prin iawn mae'n yfed yn yr ysgol gan mai dim ond drwy botel y mae'n fodlon yfed, ac rydym yn ei annog yn barhaus i ddefnyddio bicer fel yr argymhellwyd.

**Targed y Tymor**
Rwyf yn dysgu defnyddio bicer wrth yfed.

| Byddaf yn anelu at.... | ☆ | ☆☆ | ☆☆☆ |
|---|---|---|---|
| Dal y bicer yn gywir (gyda chymorth, 3/5) | | | |
| Dal y bicer (yn annibynnol a'i godi at fy ngheg gyda chyn lleied o gymorth â phosibl, 3/5) | | | |
| Dal y bicer ac yfed ohono (yn annibynnol gyda chyn lleied o anogaeth lafar â phosibl, 3/5) | | | |

NODYN: * yn dynodi Sgil Allweddol

# Monitro a gwerthuso'r cwricwlwm

Dylid nodi'r trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso'r cwricwlwm yn nogfennau polisi'r ysgol. Gall yr amrywiaeth llawn o weithwyr proffesiynol, dysgwyr a rhieni/gofalwyr gymryd rhan. Er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y cwricwlwm cyfan yn y tymor hwy, dylid ystyried y cwestiynau canlynol.

- A fodlonwyd ein nodau o ran y cwricwlwm? A yw'r gwaith dilynol yn dangos bod cwricwlwm yr ysgol wedi arwain at ddysgwyr annibynnol, llawn cymhelliant sy'n meddu ar amrywiaeth o sgiliau perthnasol y gallan nhw eu trosglwyddo i wahanol sefyllfaoedd a'u defnyddio yn eu bywydau beunyddiol?
- A yw'r arfer yn adlewyrchu'r polisïau? A ddiwellir anghenion y dysgwyr – gan gynnwys anghenion cymdeithasol, moesol ac ysbrydol?
- A yw'r dysgwyr yn cael eu hawl i gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol?
- A yw'r cwricwlwm yn cydnabod ac yn cefnogi'r amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol yn yr ysgol a'r gymuned leol? A yw'r cwricwlwm yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol yng Nghymru a thu hwnt?
- A yw'r cwricwlwm yn adeiladu'n systemataidd ar ddysgu unigolion ac yn sicrhau bod sgiliau allweddol yn cael eu datblygu a'u cymhwyso ar draws amrywiaeth o gyd-destunau ar draws cyfnodau allweddol?
- A yw'r cwricwlwm yn gydnaws ag ymagwedd gyson tuag at sgiliau a chysylltiadau rhwng Meysydd Dysgu a phynciau sy'n gwneud synnwyr i'r dysgwyr?

Wrth fonitro agweddau penodol ar y cwricwlwm/meysydd dysgu/pynciau, gall lleoliadau/ysgolion ystyried y cwestiynau canlynol.

- A fodlonwyd y deilliannau dysgu bwriadedig? A gafwyd unrhyw ganlyniadau ychwanegol/nas cynlluniwyd?
- Pa ddulliau dysgu/addysgu fu fwyaf effeithiol?
- A oedd yr ymatebion yn wahanol rhwng bechgyn/merched, dysgwyr o wahanol alluoedd, y rheini sy'n defnyddio Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol? A roddwyd cyfleoedd i bawb ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth drwy amrywiaeth o ffyrdd?
- Beth oedd barn y dysgwyr am y cynnwys/cyfleoedd dysgu a ddarparwyd?

- Sut y trefnwyd y dysgwyr yn grwpiau? A oedd hyn yn effeithiol o ran hwyluso cydweithredu?
- A ddefnyddiwyd staff cymorth yn effeithiol i ategu'r dysgu?
- Pa adnoddau a ddefnyddiwyd i helpu'r dysgwyr i fod yn gynyddol annibynnol yn eu dysgu?
- Sut y llwyddodd yr amgylchedd ffisegol i ategu'r dysgu?
- Sut y llwyddodd yr ethos/hinsawdd i ategu'r dysgu?
- Sut y gwyddoch fod y dysgwyr yn cyflawni'r deilliannau bwriadedig/dymunol?



# *Adran* 2

## Asesu pob dysgwr

# Y fframwaith asesu diwygiedig

Mae'r adolygiad diweddar o'r cwricwlwm cenedlaethol wedi arwain at ddatblygu fframwaith asesu mwy cydlynol sydd bellach yn cynnwys pob dysgwr.

Ffig. 6: Y fframwaith asesu

| **Oedran 3** | **7** | **14 Cymwysterau** |
|---|---|---|
| Ar Drywydd Dysgu → | → | → |
| Deilliant 1 y Cyfnod Sylfaen | Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol | Cyn Mynediad |
| Deilliant 2 y Cyfnod Sylfaen | Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol | ↓ |
| Deilliant 3 y Cyfnod Sylfaen | Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol | ↓ |
| Deilliant 4 y Cyfnod Sylfaen | Lefel 1 Cwricwlwm Cenedlaethol | Mynediad 1 |
| Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen | Lefel 2 Cwricwlwm Cenedlaethol | Mynediad 2 |
| Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen | Lefel 3 Cwricwlwm Cenedlaethol | Mynediad 3 |
| | Lefel 4 Cwricwlwm Cenedlaethol | TGAU |
| | Lefel 5 Cwricwlwm Cenedlaethol | ↓ |
| | Lefel 6 Cwricwlwm Cenedlaethol | ↓ |
| | Lefel 7 Cwricwlwm Cenedlaethol | ↓ |
| | Lefel 8 Cwricwlwm Cenedlaethol | ↓ |
| | Perfformiad Eithriadol | ↓ |

Gan adeiladu ar ddeunyddiau *Ar Drywydd Dysgu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006) a ysgrifennwyd i asesu dysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth yn ystod camau cynnar iawn eu datblygiad, datblygwyd y deilliannau ar gyfer Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen (3 i 7 oed) a'r deilliannau ar gyfer cyrhaeddiad cynnar ym mhynciau'r cwricwlwm cenedlaethol gyda'i gilydd, gan ddefnyddio testun cyffredin lle bo'n briodol. Maen nhw'n dilyn ymagwedd gyfannol ac yn nodi cysyniadau pwysig a sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefelau lle gall fod yn anodd rhannu eu cynnydd yn bynciau penodol. Bydd y deilliannau hyn yn darparu iaith gyffredin a strwythur clir i gofnodi'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol.

# Defnyddio deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol

Bwriadwyd i ddeilliannau a lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol ddarparu asesiad crynodol o'r dysgu. Maen nhw'n dangos y math a'r ystod o berfformiad gall ddysgwyr nodweddiadol o lefel benodol ei ddangos, ond nid ydyn nhw'n ddisgrifiad llawn o bopeth y gallai dysgwyr eu cyflawni.

Nid ydyn nhw wedi'u cynllunio i'w defnyddio o ddydd i ddydd gyda dysgwyr. Er y dylai ymarferwyr/athrawon fod yn gallu cyfateb targedau unigol dysgwyr i nodweddion o fewn y deilliannau a'r lefelau (h.y. cael syniad o'r 'lefel'), ni ddylen nhw farnu dysgwyr yn eu herbyn yn barhaus na chaniatáu iddyn nhw arwain y cynllunio na 'chulhau' cyfleoedd o fewn y cwricwlwm. Gall rhannu'r deilliannau/ disgrifiadau lefel neu ychwanegu atyn nhw newid y sail ar gyfer llunio barnau 'cyd-fynd orau' a lleihau cysondeb rhwng athrawon ac ysgolion.

Ni ddylid lefelu darnau unigol o waith, ond gallan nhw ffurfio rhan o'r dystiolaeth a gesglir dros amser ac ar draws amrywiaeth o weithgareddau/cyd-destunau, i gefnogi barn gytbwys o gyrhaeddiad. Dylai enghreifftiau unigol o waith dysgwyr roi tystiolaeth i athrawon o nodweddion un neu fwy o'r lefelau. Bydd enghreifftiau o'r fath yn cynorthwyo i:

- roi adborth ansawdd i ddysgwyr
- ddarparu cyfeirnod o fewn yr ysgol ar gyfer safoni deallusrwydd athrawon o safonau cenedlaethol
- safoni barn athrawon am berfformiad dysgwyr.

Nid oes angen i ddysgwyr ddangos pob nodwedd – na chanran o'r nodweddion – er mwyn iddyn nhw gael dyfarniad ar y deilliant/lefel honno. Mae'n bosibl bydd gan rai dysgwyr broffil 'sbigog' ac y byddan nhw'n dangos rhai nodweddion o lefelau sy'n uwch/is na'r lefel sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o berfformiad cyffredinol y dysgwr ym marn yr ymarferwyr/athrawon.

Nid oes angen cynnal gweithgareddau asesu arbennig gan ei bod yn bosibl nad asesiad 'untro' yw'r ffordd orau o asesu sawl nodwedd o'r cwricwlwm. Er iddi ymddangos fod profion yn cynnig dull mwy trachywir o asesu, ni ddylid eu defnyddio yn lle neu i gadarnhau barn athro yn unig. Maen bosib mai ystod gul o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn unig fyddan nhw'n eu samplu ond gallan nhw ychwanegu gwybodaeth wahanol i gyfrannu at asesiad cyffredinol crynodol. Ceir mwy o wybodaeth am ddefnyddio profion safonol yn *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllaw ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

Gall rhai dysgwyr ddangos perfformiad rhannol neu anghyson ac/neu efallai bydd angen offer arbennig i'w galluogi i ddangos eu cyrhaeddiad a gall fod yn briodol cymhwyso rhai o'r nodweddion mewn ffordd hyblyg – neu hyd yn oed eu diystyru os bydd dysgwyr na allan nhw eu cyflawni, o ganlyniad i anhawster penodol neu anabledd. Er enghraifft, mewn Saesneg, gall dysgwyr gyrraedd lefel ar gyfer ysgrifennu drwy ddefnyddio cyfrifiadur neu gallan nhw ddarllen oddi ar sgrin yn hytrach na throi tudalennau llyfr. Yn yr un modd, mae'n bosibl bydd angen addasu gofynion eraill i ddysgwyr â nam ar y golwg/clyw. Dylai ymarferwyr/athrawon hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw gymorth corfforol neu wybyddol a roddwyd a dylen nhw ystyried a yw'r cymorth hwn yn newid natur neu lefel ymateb y dysgwyr.

## Y berthynas rhwng asesiadau ffurfiannol ac asesiadau crynodol

Swyddogaethau yw ffurfiannol a chrynodol, nid mathau o asesu. Y prif wahaniaeth yw'r defnydd a wneir o'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd. Gwahanol fathau o asesiad athro/athrawes yw'r ddwy a dylai'r ddwy swyddogaeth wneud cyfraniad cadarnhaol at y dysgu.

| Asesiad ffurfiannol ar gyfer dysgu | Asesiad crynodol ar gyfer dysgu |
|---|---|
| Ymarferwyr/athrawon yn canolbwyntio ar gyflawniad parhaus dysgwyr unigol. | Ymarferwyr/athrawon yn defnyddio'r wybodaeth a feithrinir o asesiadau bob dydd i lunio a chofnodi eu barnau ar gyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr ar ddiwedd cyfnod/cyfnod allweddol. |
| Cylch o weithgaredd lle y caiff tystiolaeth ei gasglu (e.e. drwy arsylwi, holi, adolygu gwaith ysgrifenedig a hunanasesiad y dysgwyr eu hunain/asesiadau gan gyfoedion) a'i ddehongli o ran cynnydd tuag at nodau byrdymor/blaenoriaethau unigol. | Caiff gwybodaeth ei dehongli o ran sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth benodol a nodir mewn meini prawf cyffredin (deilliannau/lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol/Cyfnod Sylfaen) er mwyn gallu cymharu'r wybodaeth. |
| Defnyddir gwybodaeth i helpu'r dysgwyr i gymryd y camau dysgu nesaf. | Gellir adrodd gwybodaeth yn ôl i'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, a'i defnyddio i wneud penderfyniadau am opsiynau yn y dyfodol neu at ddibenion ardystio/cymwysterau. Er y gellir bwydo gwybodaeth yn ôl i ddysgu'r dysgwyr, ni wneir hyn ar unwaith fel arfer. |
| Fel arfer mae'r asesiad ar sail mesuriadau mewnol fel sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth o fewn cynlluniau gwaith a thargedau CAUau nad ellir eu cyfuno ac fe'u defnyddir i werthuso cynnydd unigolion/llwyddiant strategaethau/ymyriadau, ac ati. | Gellir defnyddio canlyniadau cronedig asesiadau crynodol i werthuso effeithiolrwydd yr ysgol, yr awdurdod lleol ac i fonitro safonau. |

Bydd ysgolion yn defnyddio ei meini prawf eu hunain a fireiniwyd yn fanwl ar gyfer asesu ar gyfer dysgu ac i nodi anghenion dysgu unigol. Wrth reswm bydd rhain yn asesu rhai o nodweddion y deilliannau/disgrifiadau lefel a bydd athrawon yn defnyddio'r wybodaeth fel y nodir yn y tabl ar dudalen 37. Ceir mwy o wybodaeth am ddefnyddio tystiolaeth o weithgareddau dysgu at ddibenion ffurfiannol a chrynodol yn Atodiadau 5 a 6 (tudalennau 70 a 74). Mae'r atodiadau hefyd yn rhoi canllawiau pellach i ysgolion sy'n dymuno adolygu proffil eu harferion asesu a'u defnydd o wybodaeth asesu.

Ar gyfer plant sy'n iau na saith oed, dylid defnyddio deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Ar gyfer dysgwyr saith oed neu'n hŷn, dylid defnyddio deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol (ac eithrio dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog/anghenion cymhleth o bosibl a allai fod yn dilyn cwricwlwm yn seiliedig ar Feysydd Dysgu ar ôl saith oed). Mae cyswllt agos rhwng y ddwy gyfres o ddeilliannau ac maen nhw'n canolbwyntio ar sgiliau trawsgwricwlaidd pwysig.

Ar ôl cyflwyno deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol, mae'n bosib bydd lleoliadau/ysgolion yn awyddus i adolygu eu prosesau casglu a defnyddio data gan ystyried y wybodaeth uchod, er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben a'r gynulleidfa fwriadedig (a all gynnwys rhieni/gofalwyr, dysgwyr, awdurdodau lleol, Estyn).

Yn anad dim, dylen nhw ystyried yr effaith ar ddysgu, gan sicrhau bod pob math o asesu nid yn unig yn cadarnhau bod dysgu wedi digwydd ond hefyd bod y dysgu hwnnw yn cael ei ddatblygu. Ni ddylid rhoi mwy o flaenoriaeth i'r broses o gasglu a dadansoddi data na'r broses o ddadansoddi anghenion dysgu.

Waeth pa ddata crynodol a gesglir ac a ddefnyddir, gellir hefyd grynhoi'r dysgu allweddol er mwyn rhoi cyd-destun (gweler Ffigwr 7).

Ffig. 7: Enghraifft o adroddiad dysgwr

# *Adroddiad Cynnydd Disgybl*

*Adroddiad Cynnydd Disgybl*

*Dyddiad geni*    *Dyddiad derbyn*

*Grŵp Bl Cyfredol*    *Dosbarth Cyfredol*

***Data Ar Drywydd Dysgu***

| | | | Nifer yr Eitemau a Gyflawnwyd | Eitem Uchaf | Aseswr |
|---|---|---|---|---|---|
| **01/01/2007** | B1 | Dosbarth 1 | **14** | **23** | **SL** |
| **01/07/2007** | B1 | Dosbarth 1 | **26** | **26** | **SL** |

***Data Cynnydd yr Adolygiad***

| Dyddiad | Bl | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| **21/06/2005** | M | Ymgartrefodd yn dda. Newidiwyd ei feddyginiaeth ers y Nadolig, cyswllt llygaid wedi gwella, rhyngweithio â'r disgyblion eraill. Llwyddo i ddweud 'eee' pan fydd yn hapus, gan ddweud 'ie' o bryd i'w gilydd. |
| **27/06/2006** | D | Yr hyn mae'n ei fwyta ac yn ei yfed wedi peri pryder. Cymhelliant yn amrywio. Yn yfed mwy o hylif bob dydd yn ddiweddar, bellach yn cael lefel ddigonol. |
| **13/05/2007** | B1 | Epilepsi wedi sefydlogi. Cofnodwyd y ffit ddiwethaf ym mis Medi 06. Gwneud mwy o gyswllt llygaid. Yn estyn allan i nodi 'mwy'. Yn gallu bwrw swits i weithredu tegan. Bellach yn symud drwy lusgo ar hyd y llawr ar ei eistedd a phenglinio. |

***Crynodeb o Ddata Graddfa P***

| | Lefel a Aseswyd (P1-P3) | Cyfartaledd pwnc Lefel P | Aseswr |
|---|---|---|---|
| **14/10/2004** | **P2 (i)** | **P 2** | **PH** |
| **09/06/2005** | **P2 (i)** | **P 2** | **PH** |
| **01/05/2006** | **P1 (ii)** | **P1.5** | **SL** |

***Data presenoldeb***

| Blwyddyn Ysgol | % presenoldeb |
|---|---|
| **2004-2005** | **85%** |
| **2005-2006** | **86%** |
| **2006-2007** | **84%** |

Er bod yr enghraifft uchod o ysgol arbennig yn Ne Cymru yn berthnasol i ddysgwyr ag anghenion mwy dwys, gellid dilyn y model hwn gyda'r crynodeb o gynnydd yn amlygu'r cynnydd mewn sgiliau trawsgwricwlaidd. Noder, efallai bydd cyfeiriadau at raddfeydd p yn cael eu disodli gan ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen/cwricwlwm cenedlaethol â chyngor ar asesu sgiliau yn y dyfodol.

Mae adroddiad Estyn *Canlyniadau ar gyfer Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol* (www.estyn.gov.uk/cyhoeddiadau) yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i fonitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig i gyflawni eu targedau dysgu unigol, yn arbennig eu targedau cyfathrebu, ymddygiad, llythrennedd, rhifedd, sgiliau meddwl, TGCh a datblygu'r iaith Gymraeg, lle bo'n briodol. Awgryma hefyd y dylai ysgolion gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgu ym maes sgiliau personol a chymdeithasol allweddol, presenoldeb, ymddygiad, dilyniant a chyfranogiad mewn gweithgareddau ehangach wrth werthuso'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig.

Dim ond un o blith amrywiaeth o ddangosyddion sy'n mesur yr hyn a werthfawrogir gennym fydd y wybodaeth o asesiadau crynodol y Cyfnod Sylfaen neu'r cwricwlwm cenedlaethol, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i ddod o hyd i ffyrdd o fesur a gwerthfawrogi cyflawniadau ehangach, (gweler yr astudiaethau achos ar dudalennau 46 a 47). Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu a chynnal peilot Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol sy'n cydnabod nad yw deilliannau addysgol yn ddibynnol ar ysgolion yn unig, ond yn hytrach yn cael eu dylanwadu gan ystod eang o ffactorau yn cynnwys tlodi, amgylchiadau teuluol, tai ac iechyd. Os yw ysgolion am gyflawni yn effeithiol i'w dysgwyr mae'n rhaid iddyn nhw gydweithio gyda rhieni, y gymuned leol, partneriaid strategol a mudiadau gwirfoddol.

## Olrhain cynnydd dysgwyr

Mae gan lawer o ysgolion systemau olrhain lleol ar waith.
Ar gyfer dysgwyr 3–7 oed gall ymarferwyr ddefnyddio Proffil Datblygiad Plentyn yn y Cyfnod Sylfaen i asesu'r cynnydd cyffredinol.

Os byddan nhw'n darparu tystiolaeth o ddysgu mewn meysydd perthnasol, er enghraifft, sgiliau, gall cynlluniau o'r fath ategu'r defnydd a wneir o ddeilliannau/lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol pan ddylid ystyried yr holl wybodaeth er mwyn llunio barn cyd-fynd orau. Yn ogystal, gellir olrhain a chofnodi cynnydd dysgwyr drwy dargedau CAU, delliannau dysgu pwnc a deunyddiau asesu sgiliau dewisol.

Gellir pennu ffocws meintiol neu ansoddol i'r broses o olrhain cynnydd dysgwyr.

Bydd olrhain meintiol yn cynnwys cofnodi a dadansoddi gwybodaeth crynodol ar sail deilliannau lefelau. Bydd y data hwn yn rhoi trosolwg o dueddiadau yn y lleoliad/ysgol, perfformiad gwahanol ddosbarthiadau/grwpiau mewn pynciau a gallai hwyluso'r broses o feincnodi gydag eraill yn lleol neu'n genedlaethol.

Yn aml, gwneir olrhain ansoddol ar ffurf naratif i gofnodi dysgu nad yw'n gyson nac yn llinellol. Yma hefyd, gellir nodi tystiolaeth o sgiliau a welir mewn gwahanol gyd-destunau, gan ddangos i ba raddau mae'r dysgwr wedi meithrin y sgiliau hyn ac i ba raddau gall eu cymhwyso. Gall cofnodion o'r fath hefyd ystyried dimensiynau cymdeithasol dysgu gan roi cipolwg o ddulliau canfod ystyr, strategaethau dysgu ac anian dysgwyr. Felly mae'r math hwn o olrhain yn fwy cyfannol.

Mae'r ddau fath o wybodaeth yn werthfawr i bolisi ac arfer. Dylai lleoliadau/ysgolion ymwrthod â'r temtasiwn i droi dysgu yn rhestrau gwirio at ddibenion olrhain. Er gall arferion o'r fath roi tystiolaeth o

brofiadau dysgwyr, prin yw'r wybodaeth o ansawdd a geir yn sgîl 'tic' a fydd yn helpu'r dysgwr i ddatblygu yn unol ag asesu ar gyfer dysgu. Gallai'r broses gaeth o gymhwyso rhestrau hierarchaidd droi'r broses asesu yn broses fecanyddol gan annog dysgu arwynebol yn hytrach na dealltwriaeth fanwl a ffyrdd ehangach o gymhwyso sgiliau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau pellach ar y defnydd gorau o wybodaeth asesu yn ystod gwanwyn 2010.

## Disgwyliadau o ran cynnydd dysgwyr

Ni fydd cynnydd dysgwyr o reidrwydd yn rheolaidd nac yn llinellol. Mae'n bosibl byddan nhw'n cymryd cam yn ôl mewn rhai agweddau ar eu gwaith, yn cyrraedd gwastadedd dysgu neu'n gwneud cynnydd sylweddol mewn rhai meysydd penodol. Mae'r deilliannau a'r disgrifiadau lefel yn y cwricwlwm cenedlaethol yn fwriadol eang er mwyn adlewyrchu'r nodweddion hyn o ran datblygiad dysgwyr a'r disgwyliad cyffredinol o hyd fydd y bydd dysgwr 'cyffredin' yn gwneud cynnydd o un lefel yn dros ddwy flynedd. O ran dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, yn arbennig y rheini sy'n gweithio ar y lefelau cynharach o ddatblygiad a amlinellir yn neilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol, mae'n bosib bydd y datblygiad rhwng lefelau yn cymryd mwy o amser ac y bydd y cynnydd yn fwy amrywiol. Felly, ni ddylid disgwyl i ddysgwyr gyflawni deilliannau penodol erbyn oedran penodol ac ni ddylid eu 'labelu' gan ddefnyddio deilliannau/lefelau.

Mae angen gwybodaeth gadarn ar athrawon am lwybrau dilyniant posibl i'w galluogi i symud dysgwyr yn eu blaen dros gyfnod o amser tuag at gyflawni'r cysyniadau a'r sgiliau hanfodol. Bydd y camau interim gofynnol o ran cyflwyno adroddiadau a chynnal hunan-werthusiadau blynyddol yn rhan o'r llwybrau dilyniant hyn. Mae lefelu gwaith/perfformiad dysgwr yn rhy aml gan ddefnyddio lefelau/deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn wrthgynhyrchiol ac yn aml yn ddiystyr a gall fod yn ddryslyd neu beri digalondid i ddysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr.

Felly mae angen dulliau cyfannol o olrhain dysgwyr er mwyn rhoi tystiolaeth i rieni/gofalwyr, awdurdodau lleol ac ati o'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr mewn Meysydd Dysgu a phynciau'r cwricwlwm cenedlaethol yn ogystal â meysydd gwerthfawr eraill. Trafodir diffiniadau ehangach o gynnydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth yn y canllawiau *Ar Drywydd Dysgu.*

## Astudiaeth achos 3

Dengys Ffigwr 8 sut y cynhelir yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad mewn un ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer dysgwyr o bob oedran (135 o ddysgwyr ar y gofrestr). Er mwyn i'r broses o bennu targedau gael effaith ar ddysgwyr, mae'r ysgol yn gadarn o'r farn bod yn rhaid iddi ddechrau gyda'r dysgwyr eu hunain. Caiff dysgwyr eu hasesu bob blwyddyn gan ddefnyddio, Equals PACE neu *Ar Drywydd Dysgu* a chaiff y canlyniadau hyn eu dadansoddi yn ôl pwnc (a thargedau cyrhaeddiad ar gyfer Cymraeg/Saesneg), cyflawniad dosbarthiadau a chanlyniadau dysgwyr unigol er mwyn dangos y gwerth a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn.


O'r gwybodaeth hwn, caiff cynnydd dysgwyr unigol ei werthuso a phennir targedau newydd. Trafodir tueddiadau grŵp/dosbarth gan staff i lywio targedau newydd a chaiff tueddiadau a chynnydd eu dadansoddi gan gydlynwyr pwnc er mwyn rhoi adborth i'r tîm arwain.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, gellir gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth o ran targedau grŵp/ysgol gyfan (e.e. gan ddefnyddio *Ar Drywydd Dysgu*, lefelau'r Cyfnod Sylfaen, lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol, achredu Cyfnod Allweddol 4), anghenion o ran datblygiad proffesiynol a chynlluniau pwnc/strategaethau gwella.

Mae'r ysgol yn pwysleisio bod angen craffu'n ofalus ar bob darn o wybodaeth asesu er mwyn codi cwestiynau perthnasol a naill ai egluro rhesymau am ddeilliannau penodol a/neu weithredu arnyn nhw.

Caiff unrhyw gyflawniadau arwyddocaol gan ddysgwyr eu cofnodi hefyd ac mae'n bosibl y pennir targedau mewn meysydd fel sgiliau cyfathrebu (arwyddion, defnyddio Picture Exchange Communication System, cymhorthion electronig ac ati), sgiliau personol (defnyddio'r toiled, symudedd, bwyta) a chyfranogiad mewn chwaraeon, gwyliau, ffora ieuenctid, cynadleddau ac ati hefyd. Yn ogystal, cadarnheir canran targedau'r CAU a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

Ffig. 8: Adolygiad blynyddol o berfformiad



# Proffil Datblygiad Plentyn yn y Cyfnod Sylfaen

Datblygwyd y Proffil Datblygiad Plentyn yn y Cyfnod Sylfaen i'w ddefnyddio drwy gydol y Cyfnod Sylfaen gyda phlant 3 i 7 oed. Mae'r canllaw hwn yn helpu ymarferwyr i arsylwi plant trwy gydol eu blynyddoedd cynnar. Trwy arsylwi a rhyngweithio gyda'r plant, bydd ymarferwyr yn gallu annog eu datblygiad ar hyd continwwm dysgu. Wrth arsylwi plant dylai'r ymarferwyr nodi eu cryfderau, eu diddordebau a'u hanghenion i helpu'r broses gynllunio ar draws y cwricwlwm. Mae Proffil Datblygiad Plentyn yn y Cyfnod Sylfaen yn canolbwyntio ar:

- Datblygiad personol
- Datblygiad cymdeithasol
- Datblygiad emosiynol/lles
- Datblygiad gwybyddol
- Datblygiad ieithyddol a sgiliau cyfathrebu
- Datblygiad corfforol.

Er mwyn cytuno ar farnau/asesiadau dilys dylai ymarferwyr ddefnyddio'r wybodaeth yn y Proffil Datblygiad Plentyn yn y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â:

- adran Sgiliau'r saith Maes Dysgu yn *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith Dysgu Plant i ddysgwyr 3 i 7 oed yng Nghymru*
- dogfennau canllaw'r Cyfnod Sylfaen a gynhyrchwyd i ategu'r cwricwlwm
- y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru.*

# Asesiad sgiliau Blwyddyn 5

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu amrywiaeth o Ddeunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol (DASDau) i gefnogi athrawon wrth ddatblygu meddwl, rhif a chyfathrebu i'w defnyddio yn ystod Blwyddyn 5. Bydd y deunyddiau hyn yn helpu athrawon i gydnabod a chofnodi cynnydd yn y sgiliau hyn.

Mae hyn yn unol ag argymhelliad adroddiad Estyn ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (gweler tudalen 39) sy'n datgan y dylai pob ysgol roi gwybodaeth flynyddol ar y cynnydd a wneir gan ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol o ran cyfathrebu, ymddygiad, llythrennedd, rhifedd, meddwl, TGCh a datblygu'r iaith Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn paratoi deunyddiau pellach i helpu athrawon wrth asesu sgiliau dysgwyr ag anghenion mwy dwys.

## Ffyrdd ehangach o fesur cynnydd

Caiff deilliannau a lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol eu defnyddio i bennu targedau ar gyfer gwella'r ysgol gyfan drwy gydgrynhoi data ar gyfer dosbarth, cyfnod a/neu gyfnod allweddol. Gall hyn helpu rheolwyr ysgolion i nodi blaenoriaethau datblygu. Mae'n bwysig cydnabod y perygl posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio samplau data bach a all gynnwys amrywiadau mawr. Mae'n bosibl na fydd data o'r fath yn ddigonol at ddiben llunio barnau cymharol ynghylch perfformiad yr ysgol neu athro/athrawes.

Er hynny, gellir defnyddio data sy'n deillio o ddeilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol i edrych ar berfformiad gwahanol grwpiau flwyddyn ar ôl blwyddyn ac olrhain cynnydd gwahanol grwpiau, gan alluogi rheolwyr lleoliadau/ysgolion i ymchwilio i feysydd lle mae'r cyfraddau cynnydd a'r lefelau cyflawniad yn peri pryder. Gellid hefyd rannu data yn anffurfiol rhwng lleoliadau/ysgolion tebyg, er mwyn trafod effeithiolrwydd a gwelliannau i ysgolion.

Er hynny, dim ond rhan o ddatblygiad cyfan y dysgwyr a adlewyrchir gan ddata sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm cenedlaethol a bydd meysydd gwerthfawr eraill lle bydd ysgolion yn awyddus i gofnodi a dathlu, megis lefelau cyfranogiad dysgwyr, cynhwysiant cymdeithasol a phartneriaeth â rhieni/gofalwyr. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol (ALlau) ac ysgolion i archwilio'r mesuriadau cynnydd mwyaf addas. Mae datblygiad Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod gwella dysgu a lles yn ganolbwynt ac yn gofyn am gydweithio rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, ALlau a rhwydweithiau o ysgolion i gydlynu polisi ac i ffocysu, ar bob lefel, ar beth sy'n digwydd i blant a phobl ifanc yn y dosbarth.

Dengys astudiaethau achos 4 a 5 sut mae ysgolion ac ALlau yn defnyddio ffyrdd ehangach o fesur cynnydd i gynorthwyo dysgwyr a gwerthuso arfer. Ceir astudiaeth achos pellach ar olrhain lles cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr yn
www.cymru.gov.uk/addysgbersonolachymdeithasol

## Astudiaeth achos 4

Mewn ysgol arbennig yn Ne Cymru, mae Ferre Laevers, o'r Ganolfan Addysg drwy Brofiad, wedi dylanwadu ar arfer. Cynigiodd fod dau ddimensiwn yn hollbwysig wrth asesu ansawdd mewn unrhyw leoliad addysgol – sef lles emosiynol a chyfranogiad. Er ei bod yn bosibl archwilio i ba raddau mae plant yn teimlo'n gartrefol, yn gweithredu'n ddigymell, yn dangos hunan-hyder ac o'r farn bod eu hanghenion sylfaenol (diogelwch a pherthyn, cydnabyddiaeth gymdeithasol a theimladau o gymhwysedd) wedi'u diwallu, gall fod yn anos mesur cyfranogiad. Cyflwynodd Laevers raddfa pum pwynt i fesur lles a chyfranogiad. Ceir manylion y raddfa, ynghyd â dogfen hunanwerthuso yn www.cego.be/

Er iddo gael ei gynllunio ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gallai'r dull gweithredu hwn roi adborth defnyddiol o ran yr amgylchedd, yr ethos a'r dull gweithredu mewn amrywiaeth o leoliadau.

Yn yr ysgol y cyfeirir ati yn yr astudiaeth achos, caiff y dysgu a'r addysgu eu monitro drwy ddefnyddio'r graddfeydd hyn gan ddefnyddio system goleuadau traffig i godi pryderon o ran lefelau lles chyfranogiad dysgwyr unigol. Mae cyswllt agos rhwng y gwaith hwn a'r cynllun teilyngdod a'r gwaith ar lythrennedd emosiynol sy'n mynd rhagddo yn yr ysgol.

## Astudiaeth achos 5

Mewn un ALl, cyflwynwyd Agweddau Disgyblion tuag at eu Hunain a'r Ysgol (PASS) i ategu'r broses o bontio rhwng Blwyddyn 6/7 ac i ddarparu data ehangach. Mae'r holiadur yn mesur agweddau a theimladau'r dysgwyr a gaiff eu dadansoddi yn ôl naw nodwedd. Gellir dadansoddi'r data hwn mewn sawl ffordd, i:

- amlygu dysgwyr a allai fod yn agored i niwed, mewn perygl o gael eu bwlio a/neu ag anghenion emosiynol/cymdeithasol
- ddarparu dangosyddion cynnar o ddadrithio (agweddau tuag at bresenoldeb/ymddygiad yn yr ysgol, teimladau am y cwricwlwm).

Gellir edrych ar ddata yn ôl grŵp blwyddyn a chyfnod allweddol ac mae wedi arwain at drafodaethau defnyddiol ymysg staff o ran gwobrau a chosbau, materion yn ymwneud â rhywedd a sut i gynnwys grwpiau mawr o ddysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Gellir hefyd bwydo canlyniadau i raglen ryngweithiol sy'n awgrymu strategaethau posibl i ysgolion eu defnyddio i roi cymorth pellach i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae'r arolwg PASS blynyddol yn hwyluso'r broses o olrhain anghenion dysgwyr ac effeithiolrwydd yr ymyriadau a ddewisir (ar lefel unigolion, grŵp neu'r ysgol gyfan). Mae'r arfer hwn yn hwyluso symud tuag at gynllunio mwy strategol yn yr ysgol a chydag asiantaethau allanol yn ogystal â darparu mesuriadau mwy diriaethol o faes hanfodol o ddatblygiad dysgwyr.

# Defnyddio *Ar Drywydd Dysgu* ar gyfer asesiadau crynodol ar ddiwedd cyfnodau allweddol i ddysgwyr ag anghenion cymhleth

Lluniwyd y Map Llwybrau i ategu asesiadau parhaus ac i helpu athrawon i feithrin gwell dealltwriaeth o ddatblygiad sgiliau cyfathrebu cynnar a datblygiad gwybyddol ac i'w galluogi i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Er bydd y Map Llwybrau yn bendant yn darparu gwybodeth i lywio adolygiadau lleoliadau/ysgolion, trosglwyddiadau rhwng dosbarthiadau/ysgolion ac adroddiadau i rieni/gofalwyr, mae'r defnydd ymarferol a wnaed o'r Map Llwybrau wedi dangos y gall cyflawniadau dysgwyr fod wedi'u lledaenu ar draws y map cyfan, gan ei gwneud hi'n anodd eu gosod o fewn un 'band' cyrhaeddiad. Bydd Map Llwybrau wedi'i gwblhau ynddo'i hun yn darparu crynodeb o gyrhaeddiad dysgwyr.

Mae deunyddiau *Ar Drywydd Dysgu* yn dangos amrywiaeth o lwybrau sy'n osgoi'r dull gweithredu camau bach/rhestr wirio a ddefnyddir mor aml gyda'r grŵp hwn o ddysgwyr ac mae cynllunio llwybrau priodol ar gyfer unigolion yn hollbwysig. Er hynny, mae lleoliadau/ysgolion yn dechrau archwilio ffyrdd o grynhoi cyflawniadau dysgwyr ar y map, er enghraifft, drwy nodi cyfanswm yr eitemau a gyflawnwyd a nodi rhif y blwch uchaf.

Wrth i ddysgwyr gyflawni'r deilliannau ar frig y Map Llwybrau, bydd angen i ymarferwyr/athrawon edrych ar y posibilrwydd o'u hasesu gan ddefnyddio deilliannau'r Cyfnod Sylfaen neu'r cwricwlwm cenedlaethol (fel bo'n briodol i'w hoedran a'r cwricwlwm a gaiff ei addysgu). Er mwyn gwneud hyn, bydd angen newid o'r model asesu *Ar Drywydd Dysgu* i fodel 'cyd-fynd orau'. Ysgrifennwyd y disgrifiadau canlynol i:

- helpu ymarferwyr/athrawon i gydnabod pan fydd dysgwyr yn cyflawni'n gadarn ar frig y Map Llwybrau a bod angen iddyn nhw symud ymlaen i ddeilliannau asesu perthnasol y Cyfnod Sylfaen/cwricwlwm cenedlaethol
- cefnogi newid i fodel asesu 'cyd-fynd orau'. Gall ymarferwyr/athrawon ystyried pa un a gaiff perfformiad dysgwyr dros y cyfnod/cyfnod allweddol ei ddisgrifio orau gan y deilliannau ar y dudalen nesaf (sy'n gysylltiedig â'r *Ar Drywydd Dysgu*) neu p'un ai yw deilliant 1 y Cyfnod Sylfaen/cwricwlwm cenedlaethol yn fwy priodol.

**Sgiliau Cyfathrebu (Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu/ Datblygu'r Iaith Gymraeg)**

Mae'r dysgwyr yn dechrau datblygu sgiliau cyfathrebu mwy confensiynol ac mae ganddyn nhw ddetholiad bach o wrthrychau cyfeirio, symbolau, arwyddion/ystumiau neu eiriau maen nhw'n eu deall. Maen nhw'n ailadrodd neu'n copïo arwyddion/geiriau am wrthrychau cyfarwydd ac yn eu defnyddio'n ddigymell, weithiau'n cysylltu dau air/arwydd at ei gilydd at amrywiaeth o ddibenion, e.e. cymdeithasu, gwneud cais, rhoi gwybodaeth, disgrifio, neu gyfarwyddo. Mae'r dysgwyr yn ailadrodd eu hunain neu'n defnyddio strategaeth amgen i gael ymateb. Maen nhw'n gwrando r ganeuon/rhigymau/straeon ac yn dangos eu bod yn eu mwynhau ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau/rhaglenni cyfrifiadurol gan ddefnyddio dulliau pwyntio gyda'r llygad/sgriniau cyffwrdd i ryngweithio. Gall y dysgwyr (lle y bo'n briodol) afael mewn eitemau a dechrau defnyddio eu bysedd i wneud olion, e.e. mewn tywod gwlyb, ewyn ac ati, gan ddatblygu i sgriblo ar bapur. Maen nhw'n dechrau archwilio ffyrdd eraill o gyfathrebu ar draws pellter/amser, e.e. gwrando ac ymateb dros y ffôn, defnyddio cyfrifiadur neu gymorth cyfathrebu.

**Sgiliau Gwybyddol (Datblygiad Mathemategol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd)**

Gall y dysgwyr ganolbwyntio, a hynny weithiau er gwaethaf pethau'n torri ar eu traws, ac maen nhw'n dechrau mynychu am gyfnodau hwy. Maen nhw'n gynyddol yn dangos y gallan nhw galw pethau i gof a defnyddio'r profiad o'r gorffennol (agos). Maen nhw'n dangos eu bod yn ymwybodol o arferion dyddiol syml ac yn rhagweld digwyddiadau. Mae'r dysgwyr yn gynyddol ymwybodol o briodweddau gwrthrychau a byddan nhw o bosibl yn dechrau paru gwrthrychau â phriodweddau tebyg. Mae'r dysgwyr yn dechrau datblygu amrywiaeth o strategaethau datrys problemau, e.e. defnyddio gris/ffon i gyrraedd eitem benodol neu roi cynnig ar weithred arall/rhan arall o'r corff/newid y ffordd o symud sydd ei angen i symud symudyn/gweithredu tegan neu swits os bydd yr ymgais gyntaf yn methu. Mae'r dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o un neu sawl un mewn amrywiaeth o weithgareddau ac maen nhw'n dechrau archwilio maint a siâp gwrthrychau ac o bosibl yn dechrau eu rhoi mewn grwpiau.

**Datblygiad Personol/Cymdeithasol (Datblygiad Personol a Chymdeithasol a Lles)**

Mae'r dysgwyr yn chwarae ar eu pen eu hunain neu gyda'u cyfoedion ac yn mwynhau cael sylw gan oedolion cyfarwydd. Maen nhw'n dechrau efelychu/cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl syml ond maen nhw fel arfer yn feddiannol dros eu heiddo eu hunain. Maen nhw'n dechrau datblygu dealltwriaeth o'r angen i aros cyn bodloni eu hunain ac maen nhw'n gynyddol ymwybodol o wahanol ymatebion gan eraill. Mae'r dysgwyr, lle y bo'n briodol, yn dod yn gynyddol annibynnol o ran defnyddio sgiliau hunan-gymorth i roi cynnig ar dasgau a chydweithredu lle mae angen help. Gall y dysgwyr wneud penderfyniadau syml am yr hyn maen nhw am ei wneud, ei fwyta, ei yfed ac ati.

**Datblygiad Creadigol**

Mae'r dysgwyr yn mwynhau archwilio priodweddau amrywiaeth o ddefnyddiau gyda phwrpas cynyddol. Maen nhw'n dechrau ymchwilio i ffynonellau sain drwy guro, ysgwyd ac ati. Efallai y byddan nhw'n dangos hoffter tuag at fathau penodol o gerddoriaeth ac yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o rythm drwy ymuno yn y gerddoriaeth neu symud. Mae'r dysgwyr yn gwneud olion gydag amrywiaeth o ddefnyddiau ac yn ymateb mewn ffyrdd gwahanol i waith a pherfformiadau eraill.

(Noder: Ni chynhwysir datblygiad corfforol gan fod angen sylw/asesiad unigol ar y maes hwn o ganlyniad i gymhlethdod anableddau corfforol llawer o ddysgwyr.)

# Cefnogi asesiad athrawon

Gan y caiff lefelau a deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol eu defnyddio i gofnodi data cenedlaethol, mae cysondeb o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion o ran disgwyliadau o berfformiad dysgwyr a barnau cyd-fynd orau ymarferwyr/athrawon yn hanfodol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer cefnogi ysgolion i ddiogelu a chryfhau eu hasesiad athro/athrawes. Erbyn haf 2010, bydd yr holl adrannau pwnc yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi elwa o adborth safoni allanol ar sampl o dystiolaeth athrawon o'u cyd-ddealltwriaeth a'u cymhwyster o ddisgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. O'r flwyddyn ysgol 2008/9, bydd angen i ysgolion cynradd ac uwchradd gael trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer safoni ar sail grwpiau clwstwr, er mwyn cefnogi a chryfhau asesiad athro/athrawes a chysylltiadau Cyfnod Allweddol 2/3. Ceir gwybodaeth bellach o'r llyfrynnau trefniadau asesu ac adrodd statudol a gyhoeddir yn flynyddol ac sydd i'w canfod ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Mae'n rhaid i systemau a threfniadau ar gyfer safoni a chysoni mewnol ganiatáu i athrawon gadarnhau dealltwriaeth gyffredin o safonau cwricwlwm cenedlaethol ar sail sampl o waith dysgwyr y cytunwyd arno. Dylai sylwadau cynorthwyol yr athrawon ddangos y cysylltiadau gyda deilliannau/disgrifiad lefelau. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r staff gytuno ar fformat ar gyfer anodi gwaith y dysgwyr cofnodion. Gall yr hyn a anodir gynnwys gwybodaeth am y lleoliad, staffio, y dasg, tystiolaeth (beth mae'r dysgwr yn ei wneud/dweud?), y cymorth a roddwyd, beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos (sgil, gwybodaeth, dealltwriaeth, agwedd), nodweddion y deilliannau/lefelau a ddangosir gan hyn a'r rhesymau drostyn nhw.

Bydd y gofynion hyn yn berthnasol i Cymraeg iaith gyntaf, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, ac i bob pwnc craidd a'r holl bynciau nad ydyn nhw'n bynciau craidd ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.

Er mwyn cydymffurfio â'r anghenion hyn, bydd yn rhaid i benaethiaid sicrhau bod athrawon o fewn eu hysgolion:

- â threfniadau mewn lle i sefydlu a chynnal dealltwriaeth o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol gan ddefnyddio enghreifftiau o waith dysgwyr i greu cyfres o waith enghreifftiol y gellir cyfeirio atyn nhw (trefniadau safoni)
- â threfniadau mewn lle i gymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol ar gyfer dysgwyr unigol a ddewiswyd (cymedroli mewnol) cyn cytuno yn derfynol ar gyrhaeddiad diwedd cyfnod allweddol yr holl ddysgwyr
- yn cadw tystiolaeth ddogfennol fanwl o'r systemau a'r trefniadau hyn a sut byddan nhw'n cael eu cymhwyso i sicrhau ansawdd mewnol ac allanol
- yn adolygu trefniadau yn flynyddol i sicrhau'r arfer gorau a pherchnogaeth gan yr holl staff sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae'n bosib bydd safoni hefyd yn helpu staff i ystyried parhad a chynnydd ar draws pynciau/sgiliau a gweithgareddau ac adnoddau sy'n briodol i oed.

Mae'n rhaid i gyfarfod grŵp clwstwr ar gyfer pontio Cyfnodau Allweddol 2 a 3 gynnwys trefniadau cadarn ar gyfer safoni samplau o waith dysgwyr mewn Cymraeg iaith gyntaf, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a ddewiswyd gan y grŵp clwstwr. Yn y grwpiau hyn, efallai bydd staff hefyd yn meddwl am sut gellir dyfarnu'r un lefel i grwpiau o wahanol oed am weithgareddau ac ymatebion gwahanol yn ogystal ag ystyried sut all cyd-destun cwricwlwm wahaniaethu rhwng cyfnodau.

Mae asesiad athro/athrawes yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cael ei ategu gan safoni allanol ar sampl o dystiolaeth o ddealltwriaeth a chymhwyster athro/athrawes o ddisgrifiad lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol a dilysrwydd systemau a threfniadau o fewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried sut gellid defnyddio modelau safoni allanol yn y dyfodol i ymestyn y cymorth canolog hwn i Gyfnod Allweddol 2

(Noder: Wrth ystyried canlyniadau lleoliad/ysgol, yn arbennig ymhlith grwpiau o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, noder y gall canlyniadau flwyddyn ar ôl blwyddyn amrywio'n sylweddol ac y caiff nifer fach o ddysgwyr a lefelau symudedd uchel effaith ar ganlyniadau asesu).

Ceir canllawiau pellach yn y llyfryn *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

# Asesu ar gyfer dysgu

Mae *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yn pwysleisio bod asesu ar gyfer dysgu yn cynnwys y dysgwyr yn cael dealltwriaeth o amcanion dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw i'w galluogi nhw, gyda chymorth, i ddatblygu o'u safle presennol tuag at dargedau newydd ac i gydnabod pan fyddan nhw wedi cyflawni'r targedau. Dylid cysylltu targedau unigol gyda gwella ansawdd gwaith y dysgwr, fel y nodir trwy adborth ffurfiannol a'u cysylltu â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Ni ellir eu cysylltu'n uniongyrchol â deilliannau na disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol am fod y rheini yn disgrifio cyrhaeddiad dros ystod o dasgau ar ddiwedd cyfnod allweddol. Ceir disgrifiad manwl o'r berthynas rhwng asesiad ar gyfer dysgu parhaol ac asesiad crynodol o ddysgu ar dudalen 37.

Yn ei raglen ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'r egwyddorion allweddol canlynol.

- Cwestiynu – gyda sylw gofalus i'r iaith a ddefnyddir a rhoi amser ychwanegol i ymateb.
- Rhoi adborth i ddysgwyr – cafwyd bod marcio drwy roi sylwadau yn unig, yn hytrach na marciau/graddau, yn effeithiol wrth ddatblygu dysgwyr gan ei fod yn annog 'cyfeiriadedd dysgu' lle yr ystyrir bod ymdrech yn arwain at lwyddiant yn hytrach na 'chyfeiriadedd perfformiad' lle yr ystyrir bod gallu yn arwain at lwyddiant o fewn diwylliant o gystadleuaeth. Dylid rhoi adborth mewn mannau allweddol yn ystod y dasg yn hytrach na gadael y cyfan nes y diwedd. Bydd hynny'n rhoi cyfle i gwirio camsyniadau neu lwybrau ymholi annefnyddiol.
- Asesu cyfoedion a hunanasesu – yn cynnwys rhannu a deall bwriad y dysgu a'r meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol, cydnabod gwaith da a sut i wella.

Gall y cwestiynau canlynol fod o gymorth i ymarferwyr/athrawon ganolbwyntio ar yr hyn bydd y dysgwyr yn ei ddysgu a sut i adnabod llwyddiant.

| |
|---|
| Beth yw'r bwriadau dysgu ar gyfer yr uned/pwnc hwn? (Gwybod . . . Gallu . . . ac ati) Pa dystiolaeth a gynhyrchir i ddangos dealltwriaeth/gwelliant gwirioneddol mewn sgiliau? |
| Pa dasgau bydd staff/dysgwyr yn eu cyflawni er mwyn hwyluso'r dysgu? |
| Yn erbyn pa feini prawf llwyddiant caiff deilliannau eu gwerthuso? Sut caiff rhain eu rhannu gyda'r dysgwyr i'w galluogi i ddeall beth sy'n gyfystyr â llwyddiant? |
| Sut y byddaf yn gwybod pwy sydd wedi deall mewn gwirionedd a phwy sydd ond yn ymddangos fel petaen nhw wedi deall? ** |
| Sut y gellir rhoi adborth i ategu dysgu yn y dyfodol? |
| Pa gamddealltwriaethau sy'n debygol o godi? Sut y byddaf yn canfod enghreifftiau ohonyn nhw? |

** e.e. trwy sylw sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr a'r gall i esbonio i eraill, trefniadau llwybr byr, gwneud newidiadau neu ymestyn syniadau a throsglwyddo dysgu.

Ceir crynodeb o'r cwestiynau i adolygu'r defnydd o wybodaeth asesu yn Atodiad 5 (gweler tudalen 71).

Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu yn yr adran 'Cwricwlwm ac asesu' yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Bydd canllawiau pellach ar gael ar y we fel rhan o'r rhaglen datblygu ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol yn ystod gwanwyn 2010.

# Cynnwys pob dysgwr – sylwadau i gloi

Mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei gynnwys ymhob agwedd ar gymdeithas. Yn amlwg, mae gan addysg ran allweddol i'w chwarae o'r Cyfnod Sylfaen i fyny ac mae'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu bellach yn rhoi llu o gyfleoedd i ennyn diddordeb pob dysgwr gan eu galluogi i ddatblygu. Mae cynhwysiant yn gyfrifoldeb i bawb. Nid mater syml o leoli dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig – nac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol – mewn ysgolion prif ffrwd mohono. Mae hefyd yn ymwneud â darparu addysg ystyrlon sydd, dros amser, yn hwyluso annibyniaeth a chynhwysiad yn y gymdeithas gyfan. Mae'n golygu sicrhau bod pob ysgol ac awdurdod lleol yn gweithredu yn unol ag ethos cadarnhaol a'r defnydd o'r hyblygrwydd sydd ar gael i gyflawni anghenion pob plentyn a pherson ifanc. I'r dysgwyr hynny sydd angen cymorth ychwanegol neu raglenni wedi'u teilwra'n unigol arnyn nhw, mae hefyd yn golygu sicrhau eu bod yn parhau yn rhan o'u hysgolion a'u cymunedau lle bynnag y cynhelir eu haddysg.

Mae'r enghreifftiau niferus o arfer da o amrywiaeth o leoliadau arbennig a phrif ffrwd ledled Cymru, y gellid ond cynnwys sampl fach ohonyn nhw'n y ddogfen hon, yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni – gyda deilliannau a fydd yn cael effaith wirioneddol ar fywydau pob un o'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru.

# *Adran* 3

## Atodiadau

# Atodiad 1: Diffinio anghenion dysgu ychwanegol

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio deddfwriaeth neu Fesurau'r Cynulliad mewn perthynas â phobl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

At ddibenion y Gorchymyn, mae gan unigolyn ADY os yw'n cael addysg a hyfforddiant ac:

(a) mae ganddo fwy o anhawster wrth ddysgu na'r mwyafrif o bobl sydd o'r un oedran â'r unigolyn hwnnw

(b) mae ganddo, neu roedd ganddo -

- (i) nam corfforol neu feddyliol
- (ii) cyflwr iechyd sy'n gwaethygu (megis canser, sglerosis ymledol neu haint HIV) sydd ar gam nad yw'n achosi unrhyw anhwylder corfforol neu feddyliol.

Mae'r Gorchymyn yn cwmpasu unigolion o unrhyw oedran sy'n cael Addysg neu Hyfforddiant ac sydd 'am ba reswm bynnag' yn cael mwy o anhawster wrth ddysgu sy'n fwy na'r mwyafrif o bobl o'r un oedran â'r bobl hynny, neu anabledd.

### Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Mae'r term ADY yn cyfeirio at 'fwy o anhawster wrth ddysgu' i gwmpasu'r holl ddysgwyr yng Nghymru y mae eu hanghenion dysgu yn fwy na'u cyfoedion o'r un oedran ac nad ydyn nhw o reidrwydd gyfystyr ag AAA fel y'u diffiniwyd yn Neddf Addysg 1996 (gweler isod).

Mae'r term ADY yn llawer ehangach ei gwmpas na'r term 'anghenion addysgu arbennig' er mwyn cydnabod anghenion amrywiol a chymhleth dysgwyr ac adlewyrchu dull mwy holistig o ddiwallu anghenion dysgwyr unigol.

Mae ADY yn cynnwys pobl, am ba reswm bynnag, mae angen cymorth dysgu ychwanegol arnyn nhw gan eu bod yn cael mwy o drafferth i ddysgu o'u cymharu â'u cyfoedion. Felly gallai fod angen cymorth dysgu ychwanegol ar ddisgyblion ysgol os ydyn nhw'n cael trafferth i ddysgu oherwydd bod ganddyn nhw, er enghraifft:

- anghenion addysgol arbennig
- anabledd
- anghenion meddygol
- blychau yn eu gwybodaeth neu neu sgiliau yn sgîl absenoldebau estynedig o'r system addysg, e.e. disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol, disgyblion sydd â ffobia am fynd i'r ysgol, neu droseddwyr ifanc
- amgylchiadau teuluol anodd, e.e. yn sgîl profedigaeth
- manteisio ar addysg yn anghyson, e.e. disgyblion sipsiwn neu deithwyr.

Efallai bydd rhai disgyblion angen cymorth ychwanegol os:

- nad Cymraeg na Saesneg mo'u hiaith gyntaf, e.e. ceiswyr lloches/ffoaduriaid/plant gweithwyr mudo
- mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanyn nhw, e.e. plentyn yr amharwyd ar ei addysg cyn iddo fynd i mewn i ofal neu sydd wedi newid ysgol sawl gwaith ers iddo fynd i mewn i ofal
- maen nhw'n tangyflawni yn sgîl cyfrifoldebau gofal, e.e. gofalwyr ifanc
- maen nhw'n feichiog neu'n rhiant ifanc
- maen nhw'n cael eu bwlio gan eu cyfoedion neu bobl eraill, oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, e.e. disgyblion lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol
- maen nhw'n ddisgyblion sy'n perfformio neu sydd â chyflogaeth.

Nid ystyrir bod gan ddisgyblion a ddiffinnir yn rhai mwy abl a thalentog anghenion dysgu ychwanegol oni bai bod ganddynt AAA neu eu bod, am ba reswm bynnag, yn cael mwy o anhawster i ddysgu pwnc neu sgìl benodol o'u cymharu â'r mwyafrif o bobl o'r un oedran nad ydyn nhw'n abl a thalentog (cyfeiriwch at yr enghreifftiau uchod).

Mae canllawiau Estyn i Arolygwyr Cofrestredig yn nodi bod rhai o'r grwpiau uchod o ddysgwyr yn rhai a allai fod yn agored i niwed (h.y. bod 'mewn perygl' yn gymdeithasol ac yn addysgol a bod angen rhoi sylw i'w cynhwysiant cymdeithasol a'u lles) yn wahanol i ddysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol. Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn glir nad yw pob dysgwr o fewn grwpiau sy'n agored i niwed wedi'i allgáu yn gymdeithasol nac yn methu'n addysgol, ond eu bod yn wynebu mwy o berygl na dysgwyr eraill.

Gallai rhai dysgwyr berthyn i'r ddau grŵp, e.e. dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanyn nhw. Mae gofynion statudol cysylltiedig ar gyfer rhai, o'r grwpiau hyn, ond nid pob un ohonyn nhw. Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 2 o'r cylchlythyr *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru (www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau o dan y pennawd 'Ysgolion' yn yr adran 'Polisiau a Strategaethau').

**Anghenion Addysgol Arbennig**

Mae'r term 'Anghenion Addysgol Arbennig' yn is-gategori o anghenion dysgu ychwanegol a pharheir i'w ddefnyddio ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig.

O dan Ddeddf Addysg 1996 (adran 312) a Chod Ymarfer AAA Cymru (2002), mae gan blentyn anhawster dysgu os:

(a) mae'n cael anhawster wrth ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r mwyafrif o'r plant o'i oedran; neu

(b) mae ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag manteisio ar gyfleusterau addysgol o fath a ddarperir fel arfer i blant o'i oedran yn gyffredinol mewn ysgolion o fewn ardal yr awdurdod addysg lleol; neu

(c) mae'n iau nag oedran ysgol gorfodol, ac mae'n debygol o gael ei gynnwys o dan diffiniad yn (a) neu (b) uchod, neu byddai'n debygol o gael ei gynnwys o dan y diffiniad hwnnw, pe na wnaed darpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer.

**Anabledd**

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn diffinio person anabl fel 'unigolyn â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol.'

Mae nam corfforol neu feddyliol yn cynnwys namau ar y synhwyrau (megis y rhai sy'n effeithio ar y golwg neu'r clyw) a namau cyfathrebu. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys rhai cyflyrau iechyd sy'n gwaethygu pan gafwyd diagnosis o'r cyflwr a phan gaiff effaith hirdymor a sylweddol ar fywyd beunyddiol unigolyn.

Rhoddir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1 o God Ymarfer ar gyfer Ysgolion y Comisiwn Hawliau Anabledd y gellir ei lwytho i lawr o www.equalityhumanrights.com/en/publicationsandresources/Disability/Pages/Education.asp

Er mwyn cydnabod y ffaith y gall pobl gael diagnosis o rai cyflyrau iechyd sy'n gwaethygu, heb unrhyw effeithiau andwyol na symptomau, ond eto sy'n wynebu gwahaniaethu o ganlyniad i'w cyflwr, mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008 yn rhoi'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio Mesur y Cynulliad mewn perthynas â phobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a chyflwr iechyd sy'n gwaethygu er nad yw'r cyflwr iechyd wedi cyrraedd cam eto lle nodwyd nam corfforol neu feddyliol.

# Atodiad 2: Datblygu cwricwlwm cynhwysol – cwestiynau i gefnogi ysgolion i fodloni anghenion dysgu ychwanegol

- Beth yw ein nodau/egwyddorion/gwerthoedd?
- Beth yw cwricwlwm perthnasol i'n dysgwyr? Beth yw eu hanghenion â blaenoriaeth?
- Yn ogystal ag elfennau statudol, beth sydd angen i ni ei gynnwys (e.e. therapïau)?
- Pa fodelau damcaniaethol sydd wedi dylanwadu ar ein ffordd o feddwl? Pa ddeunyddiau a gynhyrchwyd yn fasnachol a ddefnyddiwyd gennym? A ydym wedi datblygu rhesymeg glir ar gyfer eu haddasu a'u defnyddio?
- Sut mae'r cwricwlwm cyfan, gan gynnwys y cwricwlwm 'cudd', yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol dysgwyr?
- Sut y gallwn sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan gymaint â phosibl a'n bod yn manteisio i'r eithaf ar ddiddordebau dysgwyr?
- A yw'r cwricwlwm yn rhoi profiad ystyrlon i'n dysgwyr?
- Sut y gallwn sicrhau ehangder a chydbwysedd?
- Sut y caiff rhaglenni astudio eu defnyddio i sicrhau bod dysgwyr yn cael popeth mae ganddyn nhw'r hawl iddo? A oes rhesymeg glir ar gyfer dewis cynnwys i'w drafod yn fanwl neu gynnwys i'w ddefnyddio fel cyd-destunau ar gyfer dysgu? A wneir darpariaeth ar gyfer aildrafod pynciau/gor-ddysgu wedi'i gynllunio a chymhwyso sgiliau/gwybodaeth?
- Pa amrywiadau sydd rhwng y cyfnodau allweddol? Pam?
- Pa ddefnydd a wneir o'r datganiad 'Cynnwys pob dysgwr' a'r hyblygrwydd a rydd o ran diwallu anghenion dysgwyr?
- Sut y caiff y fframwaith sgiliau a'r fframweithiau addysg bersonol a chymdeithasol/gyrfaoedd a'r byd gwaith eu defnyddio i sicrhau yr ymdrinnir â blaenoriaethau ymhob rhan o'r cwricwlwm?
- A yw'r cwricwlwm yn cydnabod gwerth y broses ddysgu yn ogystal â'r cynnyrch?
- Sut y caiff dysgwyr eu trefnu ar gyfer gwahanol Meysydd Dysgu/bynciau? Pam?

- A oes cydbwysedd rhwng gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp ar draws y cwricwlwm? A oes cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau addysgu, e.e. dysgu drwy brofiad neu ddysgu rhyngweithiol?
- A gaiff rhyngweithio cymdeithasol ei werthfawrogi ac a sicrheir y budd mwyaf posibl o'r amser a ddefnyddir ar gyfer arferion personol y dysgwyr, amser cinio, ac ati?
- Pa strategaethau sydd ar waith i sicrhau asesiadau athrawon cyson ac i sicrhau bod yr asesiadau hyn yn llywio gwaith cynllunio pellach (asesu ar gyfer dysgu)?
- Sut y caiff cynnydd pob dysgwr ei gydnabod a sut y caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu am y cynnydd hwn?
- Pa ddata a gaiff ei gasglu er mwyn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y cwricwlwm a'r dysgu/addysgu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?
- Pa staff ac arbenigedd proffesiynol arall sydd ar gael?
  Pa ddatbygiad proffesiynol a hyfforddiant sydd angen i ddatblygu sgiliau, agweddau a gwerthoedd?
- Sut mae lleoliad yr ysgol yn effeithio ar y cwricwlwm? Sut y gallwn fanteisio ar arbenigedd rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r gymuned leol?

# Atodiad 3: Strategaethau addysgu cynhwysol[2]

## Dosbarth cyfan

- Ystyried man eistedd/lleoliad yn arbennig o ran dysgwyr â nam ar y golwg/clyw – goleuadau, sŵn cefndir ac ati.
- Egluro/arddangos geirfa newydd, anodd a sicrhau eu bod yn deall cyfarwyddiadau, e.e. Egluro yn eich geiriau eich hun.
- Datblygu strategaethau i'w helpu i gofio – nodiadau gludiog, cymhorthion gweledol ac ati.
- Cynllunio cwestiynau – gwahaniaethu iaith/targed fel bo'n briodol.
- Rhoi dewis o ffyrdd i'r dysgwyr ymateb, dangos beth maen nhw'n ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.
- Rhoi amser i feddwl a rhoi cymorth/sgaffaldiau/fframiau ysgrifennu ac ati.
- Defnyddio gwaith cydweithredol gyda chyfleoedd i'r dysgwyr helpu ei gilydd.
- Sicrhau bod unrhyw gyfraniadau ychwanegol yn aml-synhwyraidd – defnyddio cymhorthion gweledol, symbolau, TGCh, cerddoriaeth, drama.
- Cynnwys dysgwyr wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau, datrys problemau, adolygu, gwerthuso.
- Troi elfennau haniaethol yn rhai diriaethol cymaint â phosibl, e.e archwilio gwrthrychau real, mapiau meddwl gyda gwrthrychau/lluniau, ac ati.

## Gwaith grŵp

- Cynllunio adegau o newid rhwng gwaith dosbarth cyfan/gwaith grŵp.
- Modelu/egluro tasgau yn glir, gyda dulliau atgoffa os bydd angen.
- Sicrhau bod deunyddiau yn hygyrch – lefelau darllen priodol, fframiau ysgrifennu, TGCh, ac ati.
- Caniatáu i rai dysgwyr weithio mewn ardal lle na thorrir ar eu traws os bydd angen.

2 Yn seiliedig ar ddysgu ac addysg i blant ag anghenion addysgol arbennig yn y blynyddoedd cynradd Strategaeth Genedlaethol Gynradd yr Adran Addysg a Sgiliau.

- Strategaethau addysgu i'w defnyddio pan fydd dysgwyr yn mynd i drafferthion.
- Datblygu cronfa o ddeunyddiau i hybu annibyniaeth, e.e arddangosfeydd/cardiau annog, adnoddau TGCh, llinellau rhif.
- Gwahaniaethu gyda thasgau mwy agored/estynedig i ddysgwyr mwy galluog.
- Amrywio'r grwpiau a lle bo'n briodol, dyrannu gwahanol rannau o dasgau yn unol â chryfderau'r dysgwyr.
- Defnyddio TGCh i hybu mynediad – cymhorthion cyfathrebu, meddalwedd sy'n defnyddio arwyddion, dulliau actifadu â llais, ac ati.
- Rhoi adborth cadarnhaol ond realistig. Bydd sylwadau (e.e. eu hannog i gau'r bwlch) yn rhoi mwy o gymorth na dulliau lle rhoddir gradd yn unig.
- Rhannu deilliannau posibl a meini prawf ar gyfer llwyddiant gyda'r dysgwyr – egluro 'gwaith da'.
- Cynllunio ar gyfer defnyddio cynorthwywyr addysgu mewn ffordd hyblyg ac effeithiol.


# Atodiad 4: Modelau cwricwlaidd i ddysgwyr ag anghenion cymhleth

Mae fframwaith y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol yn ddigon hyblyg i gynllunio rhaglen briodol a hygyrch i bob dysgwr gan gynnwys y rheini ag anghenion difrifol a chymhleth. Gellir addasu elfennau'r cwricwlwm i ystyried anghenion datblygu a blaenoriaethau unigol. Dengys y tabl isod y prif elfennau a'r gydberthynas rhyngddyn nhw a fframwaith ehangach y cwricwlwm. Bydd y broses o ddatblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif fel y'u nodir yn y fframwaith sgiliau yn sail i bob maes 3 i 19 oed.

| Meysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen | Pynciau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 | Pynciau/Llwybrau 14–19 |
|---|---|---|
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol | Addysg bersonol a chymdeithasol (gan gynnwys addysg rhyw), addysg grefyddol, gyrfaoedd a'r byd gwaith. | Addysg bersonol a chymdeithasol ac iechyd, addysg grefyddol.<br>Gyrfaoedd a'r byd gwaith.<br>Sgiliau allweddol ehangach. |
| Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu | Cymraeg/Saesneg/ITM. Gall barhau i ganolbwyntio ar Gyfathrebu, TGCh – gan gynnwys cymorth therapi lleferydd. | Cymraeg/Saesneg.<br>Cyfathrebu, ITM, TGCh. |
| Datblygiad Mathemategol | Mathemateg. Gall fod yn gysylltiedig â datblygiad gwybyddol cynnar. | Mathemateg/cymhwyso rhif. |
| Datblygu'r Iaith Gymraeg | Cymraeg/ITM/Y Cwricwlwm Cymreig. Gall ddarparu cyd-destun ar gyfer sgiliau cyfathrebu pellach. | Cymru, Ewrop a'r Byd. |

| Meysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen | Pynciau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 | Pynciau/Llwybrau 14–19 |
|---|---|---|
| Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd | Hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, dylunio a thechnoleg, gwyddoniaeth. Gall fod yn gysylltiedig â datblygiad gwybyddol cynnar/datblygu'r synhwyrau yng nghyd-destun y meysydd pwnc hyn. | Cymru, Ewrop a'r Byd, hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, gwyddoniaeth. Cyfleoedd cymunedol/gwirfoddol. Profiadau diwylliannol. |
| Datblygiad Corfforol | Addysg gorfforol. Gall hefyd gynnwys rhaglenni ffisio ac ati. | Gwelliannau i addysg gorfforol/chwaraeon. Hamdden. |
| Datblygiad Creadigol | Celf a dylunio, cerddoriaeth, dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol (drama, dawns). | Gwelliannau esthetig, creadigol. |

Ffig. 9: Enghraifft o fodel cwricwlwm i ddysgwyr ag anghenion dwys




Ers cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol, bu cryn drafod ynghylch pwysigrwydd dysgu pynciau yn addysg dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Yn dilyn gwaith gydag arbenigwyr pwnc ac athrawon o ysgolion arbennig, daeth Grove a Peacey (1999) i'r casgliad bod dysgu o fewn pwnc yn cynnwys:

- amlygiad i brofiadau sy'n greiddiol i'r pwnc/maes hwnnw
- dealltwriaeth o sail wybodaeth y pwnc/maes penodol hwnnw
- datblygu ffyrdd o ddeall y byd sy'n nodweddiadol o'r pwnc/maes hwnnw.

Mae'n anodd diffinio'r ffiniau rhwng dysgu pwnc a dysgu trawsgwricwlaidd ar unrhyw lefel ond o bosibl yn anos ar y lefelau cynnar iawn sy'n berthnasol i ddysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol/anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio nad proses hierarchaidd yn unig yw dysgu. Felly nid yw bob amser yn ddefnyddiol ceisio gwahaniaethu rhwng dysgu y credir ei fod yn arwain at gyrhaeddiad mewn meysydd penodol a dysgu yr ystyrir ei fod yn fwy perthnasol i bynciau penodol.

Bydd y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yn ategu dysgu'r dysgwyr ar ddeilliannau trawsgwricwlaidd o fewn/ar draws Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen a phynciau'r cwricwlwm cenedlaethol. Yn hyn o beth, ni chân nhw eu heithrio rhag meithrin sgiliau/gwybodaeth a dealltwriaeth pwnc penodol ond mae'n bosibl bydd y pwyslais yn parhau ar sgiliau trawsgwricwlaidd gan ddibynnu ar flaenoriaethau personol. Er y dylai fod gan leoliadau/ysgolion resymeg glir dros gynnwys eu cwricwlwm, ni ddylai fod angen 'ail-labelu' dysgu perthnasol nac enghreifftiau o addysgu er mwyn addysgu, os mai anghenion y dysgwyr sy'n cael blaenoriaeth.

Ategir y dull gweithredu trawsgwricwlaidd hwn ymhellach drwy'r broses o gyflwyno deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol, at ddibenion asesu, sy'n cynnwys y sgiliau trawsgwricwlaidd hyn ac yn sicrhau cysylltiadau agos rhwng pynciau. O ran dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, gellir defnyddio'r deunyddiau *Ar Drywydd Dysgu* yn yr un modd i asesu dysgu trawsgwricwlaidd ar draws yr amrywiaeth llawn o Feysydd Dysgu/pynciau ac ni ddylid ystyried bod hyn mewn unrhyw ffordd yn awgrymu na ddylai dysgwyr o'r fath allu dilyn y cwricwlwm llawn.


Noda Byers (1999):

> Learning is . . . multi dimensional. Learning is also complex for students experiencing learning difficulties and staff need to develop the capacity to plan for, and record, a range of possible outcomes, including the domain specific and the cross curricular, within any learning opportunity.

# Atodiad 5: Adolygu prosesau asesu

Mae'r tabl isod (Harlen 2007) yn crynhoi elfennau a newidynnau unrhyw system asesu a gall fod o gymorth i ysgolion wrth ystyried proffil eu harfer nhw eu hunain.

Ffig. 10: Elfennau a newidynnau system asesu



## Defnyddio gwybodaeth asesu gyda dysgwyr

Gall y cwestiynau canlynol ategu gwaith ysgolion wrth iddyn nhw adolygu eu defnydd o wybodaeth asesu.

- Sut ydyn ni'n rhoi pwyslais ar asesu ar gyfer dysgu? A ydym yn cydnabod bod angen i ddysgwyr wybod lle maen nhw arni yn eu dysgu, lle dylen nhw anelu a sut i gyrraedd?
- A ydym yn rhannu amcanion/deilliannau dysgu gyda'r dysgwyr cyn gwers/cyfres o wersi mewn ffyrdd y gallan nhw eu deall?
- A gaiff meini prawf asesu eu datblygu a/neu eu rhannu gyda'r dysgwyr er mwyn hwyluso proses o hunanasesu/asesu gan gyfoedion?
- A ydym yn egluro beth sy'n 'dda' er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn glir ynghylch y safonau a ddisgwylir?
- A ydym yn defnyddio cwestiynau yn effeithiol i ganfod gwybodaeth/dealltwriaeth flaenorol dysgwyr ac i hyrwyddo meddwl a myfyrio?
- A yw'r adborth a roddir yn helpu'r dysgwyr i ddeall yr hyn a gyflawnwyd ganddyn nhw?
- A ydym yn gorbwysleisio graddau/marciau ar draul hysbysu'r dysgwyr beth mae angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella?
- A ydym yn rhoi'r amser a'r eirfa i ddysgwyr sydd eu hangen arnyn nhw i fyfyrio ar adborth ac i wneud sylwadau am eu dysgu?
- A yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu gan ddysgwyr i lywio eu gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol?
- A ydym yn sicrhau ein bod yn nodi ac yn cynorthwyo dysgwyr mwy galluog, yn ogystal â nodi a chynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr a allai dangyflawni?
- A ydym yn rhoi digon o sylw i gofnodion asesu athrawon blaenorol? Sut y gallwn wella'r defnydd a wnawn o wybodaeth/data?
- A oes gennym unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod asesiadau ffurfiannol wedi helpu i wella'r dysgu, yr addysgu a'r safonau?

## Defnyddio gwybodaeth asesu ar lefel pwnc/adran

- A ydym yn dadansoddi gwybodaeth yn ddigon manwl i roi darlun o gryfderau a gwendidau o ran perfformiad dysgwyr, ein cwricwlwm a'n haddysgu mewn gwahanol feysydd pwnc? Sut caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i gynllunio ar gyfer gwelliant?
- A ydym yn ymwybodol o amrywiadau o ran perfformiad cymharol:
  - bechgyn a merched
  - gwahanol grwpiau ethnig
  - dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol/anghenion addysgol arbennig/dysgwyr mwy galluog.

  Sut y defnyddir y wybodaeth hon gennym?
- Sut ydym yn defnyddio ein dadansoddiad o wybodaeth asesu i sicrhau y rhoddir her briodol i bob dysgwr?
- Beth a ddywed ein gwybodaeth wrthym am anghenion o ran adnoddau a datblygiad proffesiynol?

## Defnyddio gwybodaeth asesu ar lefel ysgol gyfan

- A gaiff asesiadau athrawon eu defnyddio ochr yn ochr â gwybodaeth asesu i nodi perfformiad dysgwyr ac achosion posibl o dangyflawni?
- Sut ydym yn defnyddio cyfartaleddau lleol/cenedlaethol a data am lefelau dysgwyr i bennu targedau priodol ar gyfer gwelliant?
- Sut ydym yn rhannu gwybodaeth asesu gyda rhieni/gofalwyr mewn ffordd sy'n eglur ac a fydd yn eu helpu i gynorthwyo eu plant?
- Sut gellir defnyddio portffolios yr ysgol i helpu rhieni/gofalwyr i ddeall ystyr cynnydd?
- Sut ydym yn sicrhau bod y broses o ddadansoddi gwybodaeth asesu yn arwain at adolygu/diwygio'r cwricwlwm a'r addysgu?
- Sut mae'r data asesu cronedig yn bwydo i'r broses o ddiweddaru Cynllun Gwella'r Ysgol, polisïau, cynlluniau'r cwricwlwm?
- A oes gan ein corff llywodraethu ddigon o wybodaeth i bennu targedau ar gyfer gwelliant? A yw'r wybodaeth hon ar ffurf hygyrch? Sut maen nhw'n monitro cynnydd?

- A yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys perfformiad gwahanol grwpiau, e.e. bechgyn/merched, Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol, mwy galluog?


## Cofnodi

- A yw ein system gofnodi yn ymarferol a dilys?
- A ydym wedi cytuno ar ba wybodaeth y mae angen ei chadw? A ydym yn eglur ynghylch diben/defnydd?
- A yw ein harfer yn gyson?
- Sut mae'r cofnodion yn llywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac yn rhoi adborth ar effeithiolrwydd yr addysgu?
- A gaiff dysgwyr eu cynnwys lle bynnag y bo'n bosibl?
- Sut mae'r cofnodion yn bwydo i mewn i adroddiadau i rieni/gofalwyr?
- A ydyn nhw'n hawdd eu dehongli?
- Sut ydym yn dod i ddealltwriaeth gytûn o ofynion y cwricwlwm er mwyn llunio barnau dilys?
- A yw cofnodion a gaiff eu trosglwyddo i gydweithwyr yn ddefnyddiol?
- A yw cofnodion yn effeithiol i ddysgwyr o bob gallu?
- A yw cofnodion yn ategu'r broses o bontio rhwng dosbarthiadau/cyfnodau allweddol yn effeithiol?
- A geir unrhyw achosion o ddyblygu?
- A yw ein hasesiadau yn cofnodi amrywiaeth digon eang o gyflawniadau dysgwyr?

# Atodiad 6: Defnyddio tystiolaeth asesu

Mae gweithgareddau a, b, c, d ac ati yn Ffigwr 11 isod yn cynhyrchu tystiolaeth o ddysgu, a ddefnyddir yn y pen draw at ddibenion ffurfiannol a chrynodol. Gall y dystiolaeth hon gynnwys nodiadau staff, datganiadau tystion, gwaith ysgrifenedig dysgwyr, sylwadau dysgwyr, arteffactau/celfwaith, ffotograffau neu fideo.

Ffig. 11: Defnyddio tystiolaeth o weithgareddau dysgu at ddibenion ffurfiannol a crynodol




Atgynhyrchwyd Ffigyrau 10 ac 11 â chaniatâd o *Assessment of Learning* gan W. Harlen (Sage, 2007).

Ar yr olwg gyntaf, bydd llawer o'r wybodaeth barhaus hon yn aneglur, yn amhendant neu hyd yn oed yn darparu tystiolaeth groes ac mae'n bosibl bydd yn benodol iawn i'r sefyllfa/lleoliad lle y digwyddodd. Dengys y saethau nad yw'r dysgu a geir mewn gwersi bob amser yn hierarchaidd nac yn ddilyniannol. Gall y gwahanol ddarnau hyn o dystiolaeth wneud cyfraniadau gwahanol i'r broses asesu. Yn ystod y cam hwn, y prif ffocws fydd ategu'r dysgu ac ni ddylid llunio barn ynghylch deilliant/lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Mae rôl dysgwyr yn hyn o beth yn allweddol a bydd angen iddyn nhw ddeall eu targedau a'r meini prawf ansawdd a ddefnyddir i farnu gwaith.

Bydd angen i ymarferwyr/athrawon ddeall natur dilyniant er mwyn penderfynu ar y camau nesaf gyda phob dysgwr ac ar gyfer pob dysgwr.

Mae Harlen (2006) yn awgrymu y gall fod yn ddefnyddiol mynegi dilyniant ar ffurf dangosyddion sy'n canolbwyntio ar agweddau perthnasol ar ymddygiad y dysgwr ac yn helpu ymarferwyr/athrawon i weld pa gam maen nhw wedi'i gyrraedd o ran eu datblygiad. Dylai dangosyddion o'r fath fod yn seiliedig ar ymchwil ac arfer ond ni fyddan nhw'n ddiffiniol gan nad oes union ddilyniant a fydd yn berthnasol i bob dysgwr. Mae'r deunyddiau *Ar Drywydd Dysgu* yn enghraifft o'r math hwn o arfer, gan ddangos dilyniant bras datblygiad cyfathrebu a gwybyddol cynnar heb lefelau, er mwyn helpu i nodi camau nesaf posibl i ddysgwyr.

Dros gyfres o wersi, daw darlun i'r amlwg o gynnydd y dysgwr tuag at nodau dysgu ehangach (a allai ddeillio o nodweddion deilliannau/disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol ond a fydd hefyd yn cynnwys datblygu sgiliau cyfathrebu, sgiliau meddwl, dysgu personol/cymdeithasol, ac ati). Am resymau ymarferol, dim ond er mwyn dangos cyrhaeddiad/cyflawniad arwyddocaol mae angen cadw tystiolaeth. Dros amser, gellir casglu'r dystiolaeth orau, gyda thystiolaeth hŷn/llai effeithiol yn cael ei disodli fel bo'n briodol. Mae Harlen (2007) yn awgrymu: 'Whilst it is important to base the summative judgement on evidence from a range of activities and not judge from one task, there is no point in including work that no longer reflects what students are capable of producing'. Mae gan ddysgwyr hefyd ran i'w chwarae wrth ddewis tystiolaeth a gall y broses hon adeiladu ar eu dealltwriaeth o'u targedau byrdymor er mwyn canfod cyswllt rhwng y targedau hyn a'u dysgu tymor hwy. Dylai tystiolaeth a ddewisir i gyfrannu at y farn grynodol adlewyrchu sefyllfa'r dysgwr adeg cofnodi yn hytrach na chynnydd neu berfformiad cyfartalog dros gyfnod o amser. Ar ddiwedd cyfnod o ddysgu, caiff y wybodaeth a geir o waith dysgwyr neu am berfformiad dysgwyr (gan gynnwys tystiolaeth dros dro) ei dwyn ynghyd a'i hailddehongli mewn perthynas â deilliannau neu ddisgrifiadau lefel, h.y. meini prawf bras sydd yr un fath i bob dysgwr.

Felly, gellir meintioli cyrhaeddiad mewn un rhif. Nid yw'r broses asesiad crynodol yn drachywir a dylai awdurdodau lleol ac ysgolion ofalu rhag chwyddo arwyddocâd data neu roi gormod o bwyslais ar ddadansoddiad ystadegol.

# Atodiad 7: Cyfeiriadau, darllen pellach a gwefannau defnyddiol

## Cyfeiriadau


*A Rising Tide Lifts all Ships,* Renzulli J (1998). Papur ar gyfer NEAG Centre for Gifted and Talented Development, University of Connecticut

*Assessment of Learning London,* Harlen W (2007), Sage

*Assessment Systems for the Future* Seminar Report 3 (2004) (www.arg.educ.cam.ac.uk/ASF-report3.html)

*Experience and achievement: initatives in curriculum development for pupils with severe and profound and multiple learning difficulties,* Byers R (1999). British Journal Special Education 26, 4 184–188 Dec 1999

*Learning without Limits* (O.V.P.) Hart. S, Dixon, A Drummond MJ, MacIntyre D (2004)

*On the relationship between assessment for formative and summative purposes,* Harlen W (2006) yn John Gardner (Ed) Assessment and Learning (London, Sage)

*Teaching subjects to pupils with profound & multiple learning difficulties,* Grove N and Peacey N (1999). British Journal Special Education, 26, 2, June 1999

*The Role of Teachers in Assessment of Learning*, Assessment Reform Group (2006) (gweler www.assessment-reform-group.org)

*What's the Difference? A study of differentiation in Scottish secondary schools,* Simpson M and Ure J (1993). Aberdeen: Northern College.


## Cyhoeddiadau Cwricwlwm ac Asesu Llywodraeth Cynulliad Cymru

www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

*Ar Drywydd Dysgu: Deunyddiau asesu i ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys ac anableddau ychwanegol* (2006)

Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr (2009)

*Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad* (2003)

Cyfres *Gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth asesu* (ACCAC)

Ceir canllawiau am y Cyfnod Sylfaen yn yr adran 'Cwricwlwm ac asesu' ar wefan APADGOS yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Ceir canllawiau am y rhaglen Datblygu meddwl ac asesu ar gyfer datblygu dysgu o fewn adran 'Cwricwlwm ac asesu' gwefan APADGOS

*Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* (2008)

*Gwrando ar ddysgwyr: Arbennig* (2007)

Olrhain datblygiad lles cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr www.cymru.gov.uk/addysgbersonolachymdeithasol (ewch i 'Astudiaethau achos o ysgolion cynradd' yn yr adran 'Adnoddau')

*Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2008)

*Trefniadau asesu statudol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2008–2009* (cael ei gyhoeddi'n flynyddol)

## Cyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru

*Canllawiau ar baratoi cynlluniau pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, *Cylchlythyr 30/2006*
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler 'Cylchlythrau' yn yr adran 'Cyhoeddiadau')

Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler yr is-adran 'Ysgolion' yn yr adran 'Cyhoeddiadau')

Gellir canfod canllawiau ar Llwybrau Dysgu 14–19 yn yr adran 'Polisiau a Strategaethau' ar wefan APADGOS yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

*Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog*
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler 'Arweiniad a Gwybodaeth' yn yr adran 'Cyhoeddiadau')

*Hyrwyddo Cydraddololdeb Anabledd mewn Ysgolion*

## Cyhoeddiadau Estyn

*Evaluating outcomes for children and young people with additional learning needs*
www.estyn.gov.uk/cyhoeddiadau

## Gwefannau defnyddiol

Gwybodaeth a chyhoeddiadau am asesu
www.assessment-reform-group.org.uk

Hyfforddiant, cyngor a chyhoeddiadau am ddysgwyr mwy abl
www.nace.co.uk

Gwybodaeth am yr arolwg PASS
www.pass-survey.com

Gwefan 'Association for Achievement and Improvement through Assessment'
www.aaia.org.uk

Gwybodaeth a chyhoeddiadau o'r 'Teaching and Learning Research Programme'
www.tlrp.org
www.learntolearn.ac.uk

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Diolch yn arbennig i'r grŵp llywio: Janet Barnett, Kate Evan-Hughes, Rachael Gale, Mary Griffiths, Mary Hodgkinson, Lynne McCormack, Chris Lewis a Sue Wheelhouse a roddodd o'u hamser gwerthfawr i'n helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r athrawon, ysgolion a gwasanaethau hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Yn benodol, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi cymorth a deunyddiau:

Crownbridge School, Torfaen
Darland High School, Wrecsam
Gwasanaeth Seicoleg Addysg Wrecsam
Trinity Fields School, Caerffili
Woodlands High School, Caerdydd
Ysgol Crug Glas, Abertawe
Ysgol Heulfan, Wrecsam
Ysgol Tŷ Coch, Rhondda Cynon Taf.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd â hawlfraint yn y llyfr hwn:

Atgynhyrchwyd Ffigwr 10 (tudalen 70) a Ffigwr 11 (tudalen 74) â chaniatâd o *Assessment of Learning* gan W. Harlen, cyhoeddwyd gan Sage, 2007.